

Wylfa Newydd

**Adroddiad ar yr Effaith Leol**

Pennod 22: Gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i Briffordd  
A5025

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS: EN010007

**Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol**

## 1.0 Gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i Briffordd A5025

### 1.1 Cyd-destun

- 1.1.1 Yr A5025 yw'r brif ffordd o gyrraedd arfordir gogledd Ynys Môn. Yn ogystal, mae'n cysylltu safle Wylfa Newydd a'r A55 a'r rhwydwaith cefnffyrdd ehangach. Nodwyd darn o'r A5025 i'w wella, sy'n 16.5 cilomedr o hyd ac sy'n ymestyn o Gyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer arfaethedig i'r De o'r Fali. Ni fwriedir gwneud unrhyw waith i'r dwyrain o brif safle Wylfa Newydd. Rhannwyd y darn o'r A5025 a nodwyd fel y darn i'w wella yn wyth adran, ynghyd ag un adran bellach sy'n gysylltiedig â Chyffordd arfaethedig Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer. O blith y rhain, caiff Adrannau 1, 3, 5 a 7 a Chyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer eu cynnwys yng nghwmpas y Gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i Briffordd A5025.
- 1.1.2 Diben y gwaith hwn (a'r gwaith ar y ffordd bresennol, sy'n destun caniatâd cynllunio a gyhoeddwyd gan CSYM fel yr awdurdod cynllunio lleol) yw gwella diogelwch ar y ffordd, lleihau tagfeydd traffig a rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag effeithiau ar amwynder preswylwyr sy'n byw ar hyd coridor yr A5025. Mae Horizon yn nodi bod y gwaith yn fesur lliniaru allweddol yng nghyd-destun prosiect Wylfa Newydd ac mae'r Cynllun Fesul Cyfnod a gyflwynwyd (Cyfrol 8.29)<sup>1</sup> yn nodi y bydd y gwaith yn cychwyn yng nghanol blwyddyn adeiladu 1 ac yn cael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn 2. Bydd y gwaith yn barhaol.
- 1.1.3 Mae'r A5025 yn rhedeg yn agos iawn i (ac weithiau ar hyd ffin) AHNE Ynys Môn. Pwysleisir pwysigrwydd y profiad gweledol i breswylwyr ac ymwelwyr sy'n teithio ar hyd y darn hwn o'r A5025 gan y pwys a roddir ar y golygfeydd, yr arfordir a'r mynediad i draethau, yr adroddir amdano yn Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn<sup>2</sup> ac Asesiad Llesiant Ynys Môn<sup>3</sup>.
- 1.1.4 Lleolir y bedair adran a Chyffordd y Ffordd Fynediad o fewn ac yng nghyffiniau aneddiadau, felly mae gan eu hadeiladwaith a'u gweithrediad dilynol y potensial i fod yn weladwy ac yn glywadwy i rai o'r preswylwyr. Bydd yr adrannau newydd nad ydynt ar y ffordd bresennol, a'r cerbydau a fydd yn teithio arnynt, yn cyflwyno elfennau gweledol newydd i'r golygfeydd e.e. gwaith plannu newydd ar y safle, terfynau caeau newydd ac yn yr un lleoliadau, argloddiau, pont a ffensys acwstig. Mae gan y rhain oll y potensial i newid y golygfeydd i breswylwyr yn unigol ac ar y cyd, i newid cymeriad tirlun yr ardal uniongyrchol ac i effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys cyrsiau dŵr. Effeithir ar rwydwaith presennol y llwybrau troed

---

1

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[447]

2

Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn. 2012. Ymchwil Beaufort a'r Cwmni Twristiaeth. (Atodiad 22A)

3

Asesiad Llesiant Ynys Môn. 2017. Cyngor Sir Ynys Môn. [\(Dolen\)](#)

cyhoeddus hefyd. Gwelir y gwaith arfaethedig yn y golygfeydd a nodweddir gan elfennau gwledig iawn ac weithiau, mewn golygfeydd o bellter hir ar draws yr AHNE ac i'r arfordir a thirnodau a werthfawrogir megis Mynydd-y-Garn. Er y bydd gweithrediad adrannau nad ydynt ar ffordd bresennol yr A5025 yn cynnig rhai effeithiau amwynder buddiol oherwydd y symudir traffig o ganol aneddiadau a'r gwaith dylunio lliniarol sy'n rhan o hyn, mae'n hanfodol bod cwmpas mesurau lliniaru ychwanegol ar y safle ac oddi ar y safle yn cael ei ystyried yn llawn, ynghyd â mesurau digolledu addas pan na ellir lliniaru effeithiau arwyddocaol.

## **1.2 Effeithiau a Sail y Dystiolaeth**

- 1.2.1 Mae'r is-adrannau canlynol yn nodi'r effeithiau a nodwyd gan CSYM. Pan na chyfeirir at fater yn y bennod hon, gall yr Awdurdod Archwilio ddod i'r casgliad bod CSYM wedi barnu bod yr effeithiau lleol yn niwtral ar gyfer y gwaith nad yw ar y ffordd bresennol.
- 1.2.2 Byddai'r cynnydd yng nghanran y Cerbydau Nwyddau Trwm y byddent yn defnyddio'r A5025 i gael mynediad i'r Brif Safle o'r A55 wrth Y Fali yn sylweddol, a byddai'n cael effaith niweidiol ar dderbynyddion sy'n sensitif i newidiadau mewn llif traffig megis ysgolion a phentrefi. Nodwyd gweithgarwch lliniaru ar ffurf ffyrdd osgoi neu welliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol er mwyn rhoi sylw i'r effeithiau ar bentrefi Llanfachraeth, Llanfaethlu, a Chefn Coch. Byddai cael gwared ar draffig sy'n gysylltiedig â'r prosiect a thraffig nad yw'n gysylltiedig â'r prosiect o'r pentrefi yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr a gyrwyr a'u teithwyr.
- 1.2.3 Byddai effeithiau preswyl cadarnhaol yn deillio o ostyngiad o ran y sŵn sy'n gysylltiedig â thraffig mewn eiddo penodol yn ystod y cyfnod gweithredol, ac mae Horizon wedi nodi 28 eiddo lle y byddai'r deiliaid yn profi effeithiau buddiol sylweddol o ran y sŵn yn ystod y dydd a 56 yn ystod y nos (Tabl C5-14)<sup>4</sup>.

## **Ecoleg**

- 1.2.4 Mae'r cynefinoedd lle y byddai'r gwaith yn digwydd yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella a glaswelltir wedi'i led-wella, waliau a pherthi yn bennaf. Mae Horizon yn barnu nad oes fawr iawn o dystiolaeth o foch daear neu ymlusgiaid wrth ystyried yr asesiad, nac adar magu a gaeafu, anifeiliaid di-asgwrn-cefn macro a macroffyttau ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn daearol. Mae'r rhywogaethau y bernir eu bod yn fwy cyffredin yn yr ardal yn cynnwys ystlumod, madfallod dŵr cribog, dyfrgwn, llygod y dŵr a physgod. Mae adroddiad Naws am Le Ynys Môn yn cydnabod bod madfallod dŵr cribog, dyfrgwn a llygod y dŵr yn brin ac yn cael eu diogelu, a bod preswylwyr Ynys Môn wedi rhoi cryn bwys ar bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol yn Asesiad

Llesiant Ynys Môn<sup>5</sup>, gan gydnabod bod amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau yn cyfrannu at lesiant ac ansawdd bywyd gwell.

- 1.2.5 Mae adolygiad CSYM o'r asesiad ecolegol sydd yn yr ES ac a gaiff ei gynorthwyo gan atodiadau, yn barnu bod elfennau wedi cael eu hepgor o'r wybodaeth sylfaenol. Mae casgliadau'r asesiad ecolegol yn tueddu i fod yn rhai cyffredinol ac nid oes cyswllt clir rhyngddynt a'r adroddiadau/data arolwg gwaelodlin, dyluniad y safle a'r gweithgarwch lliniaru a gynlluniwyd/yngorfforwyd sy'n cynnig sylfaen i hyn.
- 1.2.6 Nid yw CSYM wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon. Fodd bynnag, mae'n nodi nas rhoddir fawr iawn o gyfiawnhad dros ddiystyru effeithiau sy'n deillio o wahanu ardaloedd o boptu'r ffordd ac nad oes modd cyfiawnhau cwmpasu effeithiau sy'n deillio o gamau gweithredu megis ansawdd y golau, yr aer a'r dŵr mewn rhai achosion. Mae CSYM o'r farn nad yw'r sail ar gyfer y trothwy o 65dB, y mae effeithiau sŵn oddi tano ar dderbynyddion ecolegol yn ddibwys, wedi cael ei chyfiawnhau'n dda yn yr asesiad ecolegol.
- 1.2.7 Er nad yw asesiad Horizon yn ddigon cadarn mewn rhai meysydd penodol, mae CSYM yn cytuno â'r casgliadau a wneir yn gyffredinol ynghylch lefel yr effeithiau ar dderbynyddion ecolegol yn unol â'r sylwadau a wnaethpwyd am rywogaethau penodol isod. Mae'n dod i'r casgliad y bydd yr effeithiau yn rhai niwtral ar y cyfan, ar yr amod bod y gweithgarwch lliniaru a nodir yn yr ES a'r gweithgarwch lliniaru ychwanegol a argymhellir gan CSYM isod yn cael ei fabwysiadu.

## **Ystlumod**

- 1.2.8 Mae CSYM o'r farn bod asesiad Horizon o fân effeithiau cadarnhaol ar ystlumod yn ddi-sail, a bod gofyn cael gwybodaeth bellach cyn y gall CSYM ddod i gasgliad am lefel yr effaith. Mae'n barnu nad yw'r asesiad o'r effeithiau posibl sy'n deillio o risg cerbydau yn cael gwrthdrawiadau, colli cynefinoedd a gwahanol ardaloedd o boptu'r ffordd wedi cael ei asesu mewn ffordd ddigonol ac nas rhoddwyd sylw digonol i werth cadwraeth rhywogaethau penodol o ganlyniad i absenoldeb data arolygu ar gyfer rhai o'r strwythurau y mae ganddynt botensial clwydo cymedrol ac uchel (e.e. manau clwydo posibl mewn coed yn Adran 7).

## **Dyfrgwn a Llygod y Dŵr**

- 1.2.9 Ni wnaethpwyd fawr iawn o asesiad o'r effeithiau posibl ar ddyfrgwn ac ni cheir unrhyw eglurder ynghylch y graddau y gallai gwaliau dyfrgwn sy'n bellach i ffwrdd o weithgareddau adeiladu gael eu heffeithio. Yn ogystal, mae CSYM yn cwestiynu'r gwerth 'sirol' a roddir i lygod y dŵr, pan ddylai poblogaeth hunangynhaliol fod o werth 'cenedlaethol' yn ei farn ef. Mae CSYM yn ansicr, o'r wybodaeth a ddarparwyd, ynghylch a chaiff cynefinoedd/gwalau llygod y dŵr eu hosgoi a'r graddau y caiff cynefinoedd eu

colli/tarfu arnynt/gwahanu o boptu'r ffordd. O ystyried yr ansicrwydd hwn, byddai CSYM yn dymuno cael eglurhad gan NRW ei fod yn fodlon gyda chynnig Horizon i gynnal arolygon cyn adeiladu ac os bydd gofyn, cynnal arolygon dinistriol dan drwydded. Mae CSYM yn gofyn bod datganiad dull manwl ar gyfer y safle yn benodol yn cael ei ddarparu ac y dylai hwn gynnwys defnyddio clustogfeydd/ffensys er mwyn gwahanu cynefinoedd llygod y dŵr a gweithgarwch adeiladu, ailosod ac ailgysylltu cynefinoedd llygod y dŵr, goruchwyllo'r holl waith a wneir gerllaw cynefinoedd sy'n cynorthwyo'r rhywogaeth hon, yn ogystal â dulliau gweithredu manwl a phenodol tuag at glirio llystyfiant, adleoli/gwahardd llygod y dŵr a chwiliadau dinistriol. Dylai'r gweithgarwch lliniaru fod yn berthnasol i'r holl gynefinoedd y tariff arnynt ac y maent yn addas ar gyfer llygod y dŵr a dylid diwygio'r is-CoCP<sup>6</sup> er mwyn adlewyrchu'r cais hwn.

## **Adran 7 Mamaliaid a Moch Daear**

1.2.10 Nid yw CSYM yn cytuno gyda'r gwaith o gwmpasu moch daear allan o'r asesiad. Mae'r cyfiawnhad a gyflwynir yn y bennod asesu hon yn ddi-sail. Yn yr un modd, ni roddir esboniad o'r cyfiawnhad dros y gwaith o gwmpasu allan effeithiau ar rywogaethau mamaliaid sy'n Bwysig lawn er mwyn gwarchod bioamrywiaeth (e.e. draenogod, ffwlbartiaid, ysgyfarnogod, llygod medi ac ati). O ystyried natur warchoddedig moch daear, bydd angen egluro cwmpas lleoliad penodol unrhyw weithgarwch lliniaru ar foch daear ar sail data arolygu, a'i nodi'n fanwl mewn Datganiad Dull a ddylai fod yn rhan o is-CoCP wedi'i ddiweddarau.

### **Amffibiaid**

1.2.11 Barnir bod data arolygu ar gyfer madfallod dŵr cribog (GCN) wedi dyddio ac nid yw'r statws gwaelodlin wedi cael ei nodweddu mewn ffordd glir. Nid yw CSYM yn cytuno gyda Horizon y bydd yr effeithiau ar GCN yn rhai cadarnhaol mân, ac mae o'r farn y bydd yn niwtral.

1.2.12 Mae Horizon wedi ceisio cwmpasu madfallod cyffredin, ymlusgiaid, adar ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn a chynefinoedd allan o'r asesiad heb gyfiawnhad digonol. Ymhellach, mae wedi asesu pysgod fel un derbynnydd pan fo gan wahanol bysgod wahanol sensitifrwydd i effeithiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu efallai, ac fe allai cwmpasu effeithiau posibl ar wrychoedd allan o'r asesiad ar sail meini prawf Rheoliadau Gwrychoedd (ecoleg) esgeuluso gwrychoedd sy'n gynefin Pwysig lawn ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae CSYM yn gofyn y dylid egluro cwmpas lleoliad arbennig ar gyfer unrhyw symud gan ymlusgiaid ar sail data arolygu, a'i nodi'n fanwl mewn Datganiad Dull. Mae'n gofyn bod dull gweithredu tebyg yn cael ei fabwysiadu er mwyn lleihau'r risg o niweidio madfallod cyffredin.

1.2.13 Dylai mesurau yn yr is-CoCP (Cyfrol 8.12)<sup>7</sup> i ddiogelu rhywogaethau Adran 7 gynnwys camau gweithredu y cytunwyd arnynt er mwyn dadleoli mamaliaid

---

6

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-420

7

cyn y caiff cloddwaith ei wneud a/neu symud madfallod cyffredin; terfynau cyflymder er mwyn osgoi niweidio bywyd gwyllt (draenogod, moch daear, dyfrgwn) a mesurau er mwyn osgoi creu llochesau mamaliaid yn ystod y cyfnod adeiladu. Yn ogystal, dylai'r is-CoCP nodi mesurau er mwyn osgoi marwolaeth llysywod, gan gynnwys unrhyw llysywod sy'n croesi glaswelltir llaith; rheoli gwastraff (gweithredol ac adeiladu) er mwyn osgoi cynnydd yn niferoedd y llygod mawr, ac osgoi tarfu ar unrhyw setiau y gallent fod heb gael eu darganfod e.e. yn cael eu cuddio gan brysgwydd trwchus. Yn ogystal, dylai'r ddogfen nodi'r gweithdrefnau er mwyn osgoi troseddau sy'n ymwneud ag adar magu, y dylent gynnwys strwythurau adeiledig, gan gynnwys waliau cerrig, yn ogystal â llystyfiant. Mae CSYM wedi gofyn bod y gofyniad DCO perthnasol sy'n ymwneud â'r is-CoCP a gyflwynwyd yn cael ei ddiwygio yn nes ymlaen yn y bennod hon.

## **Tirlun a Gweledol**

- 1.2.14 Mae CSYM wedi adolygu'r asesiad gweledol a thirlun o'r gwaith arfaethedig nad yw ar y ffordd bresennol i briffordd A5025 a baratowyd gan Horizon. Mae dogfen G-10 Tirlun ac Effeithiau Gweledol<sup>8</sup> yn cynnwys yr asesiad, ac mae Atodiadau G10.1 i 10.9<sup>9</sup> yn cyd-fynd ag ef.
- 1.2.15 Mae CSYM yn cytuno y bydd rhai effeithiau niwtral ar y derbynyddion tirlun. Mae'r derbynyddion hyn yn cynnwys ffabrig y tirlun (coed, gwrychoedd ac ati), cymeriad y tirlun a dynodiadau. Yn rhan fwyaf yr achosion, bydd effeithiau niwtral yn digwydd yn nes ymlaen yn ystod cylch bywyd y prosiect, ar ôl y gwaith adeiladu. Byddant yn digwydd ar adeg pan fo'r gwaith tirlunio a gynigir gan Horizon wedi dechrau aeddfedu. Yn y tymor byr, mae'r effeithiau negyddol yn debygol o fod yn sylweddol.
- 1.2.16 Mae effeithiau allweddol ar y tirlun yn cynnwys effaith y prosiect ar ddynodiadau tirlun. Mae CSYM o'r farn y bydd effeithiau tymor byr sylweddol ar yr AHNE yn lleihau i rai heb fod yn sylweddol (niwtral) yn y tymor canolig a'r tymor hir, a bydd yr effeithiau ar ATA Mynydd Mechell a'r Cyffiniau yn niwtral yn ystod pob cam.
- 1.2.17 Mae casgliadau CSYM ynghylch arwyddocâd effeithiau ar olygfeydd yn deillio o'r asesiadau a gyflwynwyd gan Horizon, ac Atodiad G10-4 – Atodlen Effeithiau Gweledol<sup>10</sup> ac Atodiad G10-6 – Golygfannau Enghreifftiol<sup>11</sup> yn

---

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[420]

8

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[313]

9

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[336-344]

10

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

bennaf. Gellir gweld tystiolaeth ychwanegol er mwyn cefnogi casgliadau CSYM, a nodir isod, wrth gyfeirio at rai o'r prif nodweddion a nodwyd ar gyfer yr Ardal Cymeriad Tirlun Lleol perthnasol: LLCA 4 – Tiroedd amaethu dyffrynnog fel y'u diffinnir yn Atodiad G10-1<sup>12</sup>

- 1.2.18 Mae asesiad Horizon wedi nodi effeithiau niwtral (mân effeithiau gweddilliol niweidiol) sy'n cynnwys eiddo unigol neu grwpiau eiddo, cymunedau a defnyddwyr y llwybrau troed a'r llwybrau beicio cenedlaethol (PR1 Llwybr Arfordir Cymru a PR2 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN), llwybr 5, llwybr 8 NCN PR3, llwybr 566 NCN PR4/Llwybr Copr, 5) a hawliau tramwy cyhoeddus lleol. Yn ogystal, nodwyd effeithiau niwtral (niwtral neu fân niweidiol) ar ddefnyddwyr rhwydwaith y ffordd lleol megis ffordd Leol T5: Llanfaethlu i Lanfwrog a T6 6 Ffordd leol: o fewn AHNE Ynys Môn i'r de-orllewin o Lanfaethlu.
- 1.2.19 Mae CSYM yn cytuno gyda rhan fwyaf yr effeithiau niwtral a nodwyd gan Horizon, ond nid pob un ohonynt. Mae CSYM o'r farn y byddai effeithiau niweidiol sylweddol gweddilliol (effeithiau negyddol) yn ystod y cyfnod adeiladu ar ffabrig y tirlun, y byddai adeiladu'r gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Byddai patrymau caeau presennol, coed, ffiniau caeau a gwrychoedd pwysig yn cael eu colli, gan arwain at effeithiau a fyddai'n niweidiol ac yn barhaol. Yn y tymor canolig, byddai rhywfaint o effaith ar dderbynyddion tebyg sydd wedi'u lleoli gerllaw y gwaith hefyd. Byddai patrymau caeau yn cael eu tarfu, er enghraifft.
- 1.2.20 Byddai colli nodweddion yn y tirlun yn cynrychioli effaith negyddol ar gymeriad y tirlun hefyd, o ystyried y ffaith bod nifer o'r nodweddion, megis coed gwrychoedd, waliau cerrig, a chloddiau yn cyfrannu at dirlun arbennig yr ardal. Yn ogystal, byddai presenoldeb y briffordd newydd yn newid cymeriad y tirlun sydd o gwmpas y llwybr yn uniongyrchol, er y byddai'r effaith hon yn lleihau gydag amser wrth i waith plannu newydd aeddfedu. Mae CSYM o'r farn y dylid darparu tirlun caled a meddal ychwanegol, fodd bynnag, a darparir gwybodaeth bellach yn nes ymlaen yn y bennod hon.
- 1.2.21 Ni fydd y broses o adeiladu'r ffordd a'i gweithrediad yn cael effaith uniongyrchol ar ddynodiadau tirlun cyfagos (AHNE Ynys Môn) o ystyried ei bod y tu allan i'r ffin. Fodd bynnag, bydd effeithiau negyddol yn y tymor byr o ganlyniad i'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r prosiect a cholli patrymau caeau, coed, ffiniau caeau a gwrychoedd pwysig yn adrannau 3 a 5. Er eu bod y tu allan i'r AHNE, byddai'r colledion hyn yn digwydd o fewn golygfeydd o'r AHNE.
- 1.2.22 Cyflwynir ystyriaethau CSYM o'r effeithiau gweledol sy'n deillio o'r prosiect ar gyfer pob adran unigol nad yw ar y ffordd bresennol.

---

11

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[341]

12

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[336]



## Adran 1 Y Fali

1.2.23 Mae CSYM yn cytuno gydag asesiad Horizon y byddai effeithiau niweidiol sylweddol gweddilliol (effeithiau negyddol) yn ystod y gwaith adeiladu yn y manau canlynol:

- a) R4: dau eiddo ar ymyl dwyreiniol Y Fali;
- b) C1: ardaloedd cymunedol y gall y cyhoedd eu defnyddio yn Y Fali;
- c) PR6: dwy hawl dramwy gyhoeddus i'r gogledd o Adran 1;
- d) T13 a T14: adrannau agosaf yr A5 a'r A5025.
- e) Z1: Mynwent Y Fali.

1.2.24 Byddai dau o'r grwpiau derbynyddion y cyfeirir atynt uchod yn profi effeithiau negyddol yn ystod Blwyddyn 1 y gweithrediad hefyd. Y rhain yw grwpiau derbynyddion R4 a Z1. Ni fyddai unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu profi yn ystod Blwyddyn 15 y gweithrediad.

1.2.25 Mae CSYM yn cytuno gyda'r asesiad a gyflwynwyd gan Horizon, ond mae o'r farn y gallai'r effeithiau negyddol gael eu lleihau'n sylweddol gan fesurau lliniaru ychwanegol yn ychwanegol i'r rhai a gynigir gan Horizon. Ar gyfer nifer fach y derbynyddion gweledol yr aseswyd y byddent yn destun effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai CSYM yn gofyn a fyddai modd rhoi pwyslais ar weithredu dau o'r mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer y cyfnod adeiladu, a nodir yn Nhabl G10-9<sup>13</sup> Horizon. Y rhain yw lleihau'r golau sy'n dod o unedau goleuo yn y caeadle adeiladu. Un eithriad i'r mesurau lliniaru a gynigir gan Horizon fyddai'r ddwy Hawl Dramwy Gyhoeddus (Cyfeiriadau ar y Map Swyddogol, 49/016/1 a 2 a 49/009/1), lle y byddai mesurau digolledu a fyddai'n cynnwys gwneud gwelliannau i'r llwybr troed a'r arwyddion yn briodol.

1.2.26 Yn ystod y cyfnod gweithredol, ceir dau grŵp o dderbynyddion gweledol lle y mae CSYM o'r farn y dylid ystyried atgyfnerthu'r gwaith plannu presennol oddi ar y safle ar eu cyfer. Yn R4<sup>14</sup>, mae CSYM yn dod i'r casgliad y gallai plannu ychwanegol ar hyd ffin yr eiddo gynnig sgrin ychwanegol, gan gydnabod y byddai angen cyflawni hyn trwy ymgynghori â phreswylwyr y ddau eiddo (a'r tiffeddiannwr pe byddai'r plannu y tu hwnt i gwrtilau'r eiddo). Ym Mynwent Y Fali, nid yw gwaith plannu presennol ar hyd y ffin o fewn y Fynwent mor helaeth, ac efallai bod mwy o gwmpas i wneud gwaith plannu ychwanegol o fewn ac ar hyd y ffin orllewinol.

## Adran 3 Llanfachraeth

1.2.27 Mae Horizon wedi nodi tri ar ddeg o grwpiau derbynyddion preswyl, dau lwybr hamddena cyhoeddus a thair ffordd leol lle y byddai'r deiliaid neu'r defnyddiwr

---

13

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[344]

14

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

yn dioddef effeithiau negyddol yn ystod y cyfnod adeiladu. Asesir bod tua hanner y derbynyddion gweledol hyn yn dioddef effeithiau mawr neu fawr iawn. Mae CSYM yn cytuno gyda'r asesiadau ynghylch arwyddocâd.

- 1.2.28 Yn ystod Blwyddyn Weithredol 1, asesir bod yr holl dderbynyddion gweledol a restrir uchod yn dioddef effaith gymedrol, er bod arwyddocâd dilynol effeithiau gweddilliol yn amrywio rhwng cymedrol a mawr. Mae effeithiau ar y derbynyddion hyn yn lleihau i fod yn gymedrol (ond yn parhau i fod yn arwyddocaol) yn ystod Blwyddyn 15. Mae CSYM yn cytuno gyda'r asesiad ynghylch arwyddocâd ar gyfer nifer o'r derbynyddion a nodwyd, ond mae o'r farn na chaiff yr effeithiau eu cynrychioli ddigon yn R27 Eiddo ym Mharc Llynnon, R30 Fferm Bedo, R31 Pedwar eiddo i'r dwyrain o Lanfachraeth ac R40 Pen-y-Groes<sup>15</sup>.
- 1.2.29 Yn ystod Blwyddyn Weithredol 15, mae CSYM yn cytuno gyda chasgliadau Horizon ynghylch arwyddocâd, ac eithrio ar gyfer derbynyddion R27 – Eiddo ar Barc Llynnon, R30 – Fferm Bedo, R40 Pen-y-Groes, PR8 – Hawl Dramwy Gyhoeddus i'r de-ddwyrain o ben deheuol Adran 3, PR9 – Hawl Dramwy Gyhoeddus ar hyd Afon Alaw, PR13 – Hawl Dramwy Gyhoeddus i'r de o Blas Ellen a Than y Bryn a PR14 – Hawl Dramwy Gyhoeddus i'r de o Donwy.
- 1.2.30 Mae CSYM o'r farn y dylid atgyfnerthu'r gwaith plannu presennol oddi ar y safle er mwyn lliniaru'r effeithiau lleol ymhellach. Byddai'r gwaith plannu hwn yn canolbwyntio ar derfynau presennol caeau a ffurfiwyd gan wrychoedd a/neu ffensys pyst a weiren yn hytrach na therfynau caeau a ffurfiwyd gan gloddiau neu waliau cerrig. Mae CSYM o'r farn y gallai fod cyfle cyfyngedig hefyd i gyflwyno gwaith plannu wedi'i leoli'n ofalus mewn cornel caeau neu leiniau cysgodi. Byddai'r math hwn o waith plannu yn fwy priodol i nodweddion tirlun allweddol sy'n bresennol mewn rhannau o'r ardal astudio gyffredinol a leolir yn LLCA7, LLCA9 ac LLCA10<sup>16</sup>.
- 1.2.31 Enghreifftiau o'r mesurau i'w cymryd er mwyn sgrinio adran 3 ymhellach fyddai plannu coed ar raddfa fach er mwyn cau bylchau cul, a gallai hyn fod yn hanfodol wrth gynnig mwy o sgrinio a/neu hidlo golygfeydd i ddarn o'r rhwystr sŵn neu'r draphont a'i hargloddiau ar gyfer preswylwyr mewn eiddo unigol neu grwpiau bach o eiddo yn nwyrain Llanfachraeth. Ymhellach, dylid ceisio gwaith plannu ar hyd ffiniau caeau yn yr ardal hon, o bosibl er mwyn digolledu am unrhyw effeithiau niweidiol ar ran agosaf yr AHNE. Mae CSYM yn nodi bod cymhariaeth o ffotograffau o'r awyr o 2010 a 2017<sup>17</sup> yn dangos bod ffin cae a oedd yn cynnwys nifer dda o goed yn flaenorol ac a oedd yn

---

15

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

16

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[194]

17

Google Earth Pro

rhedeg o'r gogledd i'r de o Finffordd i Lôn y Felin wedi colli ei holl adnoddau coed ar ôl 2010. Byddai disodli'r llystyfiant a gollwyd yn fuddiol i'r tirlun ac yn weledol, gan sgrinio golygfeydd o Lanfachraeth ar gyfer derbynyddion yn rhannau agosaf yr AHNE. Byddai atgyfnerthu gwrych i'r gogledd o ben gorllewinol PR8<sup>18</sup> yn darparu rhywfaint o sgrinio ychwanegol i breswylwyr yn R23 Tyn Fynnon<sup>19</sup>, a byddai gwaith plannu dethol ar ochr ddeheuol pen gorllewinol T1<sup>20</sup> yn cynnig rhywfaint o sgrinio ychwanegol hefyd i breswylwyr yn R33<sup>21</sup> a defnyddwyr PR13<sup>22</sup>, y pennwyd llwybr newydd parhaol ar ei gyfer.

## Adran 5 Llanfaethlu

1.2.32 Mae tri ar ddeg o grwpiau derbynyddion preswyl, un cymuned (Llanfaethlu), dau lwybr hamddena cyhoeddus ac un ffordd leol wedi cael eu nodi gan Horizon yn fannau lle y byddai deiliaid neu ddefnyddwyr yn dioddef effeithiau negyddol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae hyn yn lleihau yn ystod cyfnodau asesu Blwyddyn Weithredol 1 a Blwyddyn 15 fel bod Horizon yn nodi un effaith weledol niweidiol sylweddol yn R56 Rhos-ty-mawr<sup>23</sup> ym Mlwyddyn 15. Mae CSYM yn cytuno gyda chasgliadau'r asesiad yn gyffredinol, ac er ei fod wedi nodi rhai derbynyddion lle y gallai maint y newid fod yn fwy na'r hyn a nodir gan Horizon, mae'n dod i'r casgliad bod y lefelau arwyddocâd gweddilliol a gofnodwyd yn gywir.

1.2.33 Er mwyn lliniaru'r effeithiau lleol a gofnodwyd ymhellach, byddai CSYM yn dymuno gweld prysgwydd ychwanegol a choed ysbeidiol yn cael eu plannu gerllaw cyffordd adran 5 gyda'r A5025<sup>24</sup>. Yn y lleoliad hwn, byddai estyniad i'r gogledd-orllewin o brysgwydd brodorol arfaethedig gyda choed ysbeidiol neu

---

18

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

19

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

20

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

21

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

22

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

23

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

24

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

nifer fach o goed unigol ar ochr orllewinol Adran 5 yn cynnig gwaith hidlo ychwanegol golygon y gyffordd a'r adran ychydig yn uwch i'w dwyrain ar gyfer preswylwyr Rhos-ty-mawr (R56)<sup>25</sup>.

1.2.34 Yn ogystal, mae CSYM wedi nodi cyfleoedd i wneud gwaith plannu oddi ar y safle, y byddai'n cynnig cyfleuster sgrinio ychwanegol trwy atgyfnerthu ffiniau caeau presennol. Byddai hwn yn digwydd wrth ben gorllewinol ffordd Llanfaethlu – Llanddeusant (T4)<sup>26</sup> ac yn yr ardal rhwng PR18 a Chae'r Bryniau (R53)<sup>27</sup> ac adran ogleddol Adran 5.

### **Adran 7 Cyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer a Chefn Coch**

1.2.35 Mae asesiad Horizon wedi dod i'r casgliad y byddai effeithiau negyddol yn ystod y cyfnod adeiladu ar ddau ar bymtheg o dderbynyddion preswyl unigol neu grwpiau preswyl, pum Hawl Dramwy Gyhoeddus, un derbynydd cymunedol (ardaloedd cyhoeddus yn Nhregele) a phedair ffordd leol. Mae hyn yn lleihau i ddau eiddo ac un ffordd yn ystod Blwyddyn Weithredol 1 ac un derbynydd preswyl (R76 Tyn felin) yn Mlwyddyn 15. Nid yw'r mesurau lliniaru ychwanegol a nodwyd gan Horizon yn lleihau'r lefelau arwyddocâd a gofnodwyd.

1.2.36 Mae adolygiad CSYM o asesiad Horizon yn nodi wyth o fân wahaniaethau rhwng y casgliadau a ffurfiwyd ynghylch effeithiau Adeiladu. O ran effeithiau Adeiladu blwyddyn 1, mae CSYM o'r farn bod gan y casgliadau ynghylch dim arwyddocâd a ffurfiwyd ar gyfer derbynyddion R79 (Pen yr Groes), R80 (Y Tŷ Gwyn), R87 (Rhandir) a PR23 (Hawl Dramwy Gyhoeddus gerllaw y Tŷ Gwyn)<sup>28</sup> y potensial i fychanu arwyddocâd yr effaith a fyddai'n deillio o weithrediad Adran 7, sef y byddai effeithiau yn gymedrol ac felly'n arwyddocaol yn hytrach nag yn fân. O'r herwydd, byddai effeithiau negyddol arwyddocaol yn digwydd.

1.2.37 Ar gyfer yr un derbynyddion, mae CSYM wedi nodi effeithiau negyddol ychwanegol yn ychwanegol i'r rhai a gofnodwyd gan Horizon yn ystod Gweithrediad Blwyddyn 15.

1.2.38 Bach iawn yw'r cwmpas er mwyn i'r effeithiau a nodwyd gan CSYM gael eu lleihau gan waith plannu lliniarol ar y safle. Mae hyn oherwydd, ac eithrio

---

25

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

26

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

27

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

28

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

R79<sup>29</sup>, bod y derbynyddion yn agos iawn i Adran 7 yr A5025 a lefel isel y gorchudd sgrinio presennol sydd ar gael. Ym mhob lleoliad bron, mae culni y coridor adran 7 ar y safle yn cyfyngu ar y cwmpas ar gyfer gwaith plannu ychwanegol ar y safle, gydag un eithriad ar hyd y ffin ddwyreiniol.

1.2.39 Er mwyn darparu gwaith lliniaru priodol felly, byddai CSYM yn dymuno gweld gwaith plannu oddi ar y safle mewn lleoliadau, fel y byddent yn lleihau effeithiau niweidiol arwyddocaol fel arall yn R79 ac R97<sup>30</sup> i fod yn rhai nad ydynt yn arwyddocaol. Dylai'r gwaith plannu ddigwydd o fewn y ddau gae sy'n weddill y byddent yn cael eu ffurfio rhwng hen ffordd yr A5025 a ffin ddwyreiniol coridor adran 7.

1.2.40 Yn ogystal, byddai modd darparu gwaith plannu wedi'i dargedu mewn nifer o leoliadau lle y nodwyd effeithiau niweidiol, er nad yn arwyddocaol. Byddai gwaith plannu o'r fath ar ffurf atgyfnerthu a chryfhau rôl sgrinio a hidlo y rhesi o goed neu'r perthi ffiniol presennol.

### **Digolledu a Gwella**

1.2.41 Ar draws yr ardal a gaiff ei chroesi gan yr adrannau nad ydynt ar y ffordd, ceir sawl llwybr troed cyhoeddus y mae Horizon wedi eu cofnodi fel rhai anodd i gael mynediad iddynt neu rai anghyraeddadwy. Mae hyn yn arbennig o wir fewn adran 3 a 7 a'r ardal astudio o gwmpas Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer Byddai modd gwella'r sefyllfa trwy wneud gwelliannau i'r gweithgarwch rheoli, y cyfleusterau mynediad (camfeydd, gatiâu) a gwelliannau i arwyddion hyd yn oed lle y mae'n ymddangos ei bod yn hawdd cael mynediad i nifer fach yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ardal astudio Adran 5. Byddai cwmpas i wneud gwelliannau law yn llaw â strategaethau mynediad a hamdden ehangach CSYM a nodir yn ROWIP 2008-2018<sup>31</sup> a disodli ROWIP ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Gallai mesurau digolledu ymestyn i gynnal a chadw a gwella ffiniau caeau hefyd, gan gynnwys cloddiau. Yn adran 7, er enghraifft, mae nodweddion allweddol LLCA21<sup>32</sup> yn pwysleisio diffyg atgyweirio perthi a waliau cerrig sych/cloddiau sy'n creu ffiniau caeau, a'r ffaith eu bod yn cael eu hatgyfnerthu neu eu disodli gan ffensys pyst a weiren wedi hyn.

---

29

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

30

Fel y dangosir yn [Tabl G10-4.1], Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[339]

31

Ynys Môn, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008-2018 ([Dolen](#))

32

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[194]

1.2.42 Mae nodweddion allweddol LLCA12 ac LLCA11<sup>33</sup> yn pwysleisio pwysigrwydd cadw patrymau ffiniau caeau a thystiolaeth o ddiffyg gwaith cynnal a chadw presennol.

### **Dŵr Wyneb a Dŵr Daear**

1.2.43 Mae CSYM wedi asesu'r bennod berthnasol a'r atodiadau ategol, gan gynnwys yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd<sup>34</sup> ac mae'n dod i'r casgliad, ar gyfer rhan fwyaf y derbynyddion a nodwyd y byddai modd iddynt gael eu heffeithio, bod mesurau lliniaru addas yn cael eu nodi, a chytunir ar faint mawr posibl y newid. Mae Horizon wedi nodi mân effeithiau lluosog ar ddŵr wyneb a dŵr daear, y byddent yn rhai llai nag arwyddocaol. Nodir manylion 39 o effeithiau o'r fath a asesir yn Atodiad I3-1 (Prif Effeithiau Gweddilliol)<sup>35</sup>. Mae CSYM yn cytuno gyda'r casgliadau hyn ac at ddibenion yr adroddiad hwn, bernir bod yr effeithiau hyn yn effeithiau niwtral.

1.2.44 Mae gan CSYM bryderon sylweddol ynghylch yr effeithiau posibl ar risg llifogydd yn yr eiddo preswyl nas enwir yn adran 3 (traphont Afon Alaw)<sup>36</sup>. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y bydd gwaith dylunio manwl yn gallu atal y mân gynydd mewn risg llifogydd ond byddai CSYM yn dymuno deall y sefyllfa at raid pe byddai gwaith dylunio o'r fath yn amhosibl yn ariannol/ffisegol.

1.2.45 Yn ogystal, mae gofyn cael manylder pellach mewn perthynas â'r effeithiau posibl ar gyflenwadau dŵr preifat (PWS). Mae gan CSYM bryderon ynghylch y ffaith bod yr asesiad fel y'i cyflwynir yn darparu ar gyfer tybiaethau sy'n anghyson a heb fod yn cynnwys manylion. Nid yw'n ymddangos y cynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle, ac ni wnaethpwyd fawr o ymdrech, os o gwbl, i gasglu gwybodaeth ychwanegol. Mae Pennod G8<sup>37</sup> yn nodi bod yr ymchwiliad o'r ddaear wedi nodi gorwelion dyfrhaenau tenau ysbeidiol gyda chyfleuster storio isel, felly mae hyn yn golygu y gallai Cyflenwadau Dŵr Preifat (PWS) fod yn agored i niwed gan newidiadau lleol y gallent effeithio ar eu dalgyrch. Dylid cynnig gwell dealltwriaeth o PWS/y defnydd a wneir o ffynhonnau,

---

33

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[194]

34

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-323

35

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[391]

36

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[323]

37

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[311]

adeiladwaith, cyfanswm tynnu a diben, yn hytrach na dibynnu ar fonitro un PWS yn Erw Goch.

- 1.2.46 Mae Horizon yn nodi bod rhaeadr creigwely naturiol yn Afon Cafnan, i lawr y nant o'r ffordd fach sy'n croesi i Ben-yr-orsedd. Mae'n barnu bod y rhaeadr yn sensitif iawn, gan gynnig amrywiaeth geomorffolegol yn y dalgyllch a nodwedd unigryw yn y cwrs dŵr. Cynigir tynnu darn o'r rhaeadr allan a'i ddisodli gyda chwlfert concrid. Mae Horizon yn nodi hefyd y gallai darn y rhaeadr nad oes angen ei dynnu oddi yno gael ei ddifrodi yn ystod y gwaith o adeiladu'r cwlffert. Cyfeirir at fabwysiadu lleiniau clustogi ac asesu risg o fewn prif CoCP Wylfa Newydd, er bod y mesurau yn y ddogfen honno yn ymddangos fel pe baent yn fwy cysylltiedig gydag atal gollyngiadau a damweiniau, yn hytrach na diogelu'r nodwedd (Dogfen gais 8.6, adran 10.2)<sup>38</sup>.
- 1.2.47 Mae gofyn i CSYM gael gwybodaeth bellach am y rhaeadr creigwely gan bod addasrwydd y mesurau lliniaru yn aneglur. Mae angen i Horizon ystyried a yw hi'n debygol y caiff y nodwedd ei symud yn gyfan gwbl (ei golli), neu a oes modd addasu graddau'r gwaith er mwyn gadael cymaint o'r nodwedd ag y bo modd yn gyfan. Mae gofyn i CSYM gael rhagor o wybodaeth er mwyn dangos a yw camau lliniaru/ail-greu yn bosibl.

### **Amgylchedd Hanesyddol**

- 1.2.48 Ystyrir bod asesiadau a chasgliadau Horizon mewn perthynas â'r effeithiau ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau yn briodol, er nad yw'r casgliadau a gyflwynir yn ystyried mewn ffordd amlwg yr effeithiau buddiol posibl ar adeiladau hanesyddol yn y pentrefi y bydd ffordd osgoi yn eu gwasanaethu. Yn fwyaf nodedig yn Llanfachraeth, ceir nifer o adeiladau rhestredig sy'n wynebu llinell bresennol yr A5025 yn uniongyrchol, a lle y gallai gwaredu traffig sy'n teithio trwy'r pentref atgyfnerthu cymeriad hanesyddol y pentref, gan wella cyfraniad lleoliad yr asedau treftadaeth hyn i'w harwyddocâd. Ym marn CSYM, byddai hon yn effaith barhaol Niwtral neu ychydig yn Gadarnhaol.
- 1.2.49 Mae effaith niweidiol gymedrol bosibl (effaith negyddol) wedi cael ei nodi i arwyddocâd Maen Hir Capel Soar yn Llanfaethlu oherwydd y gweithgareddau adeiladu ac adlinio'r ffordd. Mae'r casgliad hwn yn ymddangos yn briodol i CSYM, sy'n barnu y byddai unrhyw niwed yn gyfyngedig. Mae'r maen i'w weld yn glir o'r A5025 bresennol a dylai Horizon nodi mesurau digolledu posibl, y gallent gynnwys bwrdd gwybodaeth neu rywbeth tebyg mewn lleoliad priodol.
- 1.2.50 Mae ES Horizon yn nodi effeithiau negyddol sy'n codi hefyd trwy newid i osodiad adeiladau Gradd II rhestredig yn Siop Soar (Ased 149, LB 28414) a'r Black Lion Inn (Ased 150, LB 24794) a Rhos-ty-Mawr (Ased 173), nad yw'n ddynodedig, yn Llanfaethlu. Byddai'r effeithiau hyn yn cyfateb â niwed cymedrol i'w harwyddocâd am gyfnod cyfyngedig, sy'n effaith negyddol dros dro ac am gyfnod byr.

## Cymdeithasol economaidd

- 1.2.51 Mae CSYM yn nodi bod yr asesiad yn datgan bod gofyn meddiannu darn mawr o dir amaethyddol Gradd 4, tua 132 hectar, er mwyn gwneud y gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol ac y byddai pedwar buddiant tir amaethyddol yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol, a fyddai'n golygu y byddai gofyn i Horizon brynu'r tir neu gyflawni trefniant prynu gorfodol o ran y tir er mwyn cwblhau'r gwaith. Byddai lleihad o ran cyfanswm y tir amaethyddol defnyddiadwy yn cael effaith economaidd ar y busnes sy'n cael ei effeithio.
- 1.2.52 Mae CSYM yn cydnabod y byddai'r elfen hon o'r prosiect yn creu rhai manteision economaidd trwy greu swyddi yn ystod y gwaith o wella'r briffordd, ac y byddai effeithiau cadarnhaol ar gadwyni cyflenwi lleol wrth iddynt ddefnyddio contractwyr a busnesau lleol o bosibl. Er bod yr effaith negyddol ar fusnesau lleol yn debygol o fod yn fach iawn, mae chwe busnes wedi'u lleoli o fewn 1 cilomedr i'r safleoedd arfaethedig ac efallai y bydd rhai mân effeithiau o ran amharu ar fynediad. Dylid gwneud diwygiadau i'r is-CoCP, trwy wneud ymrwymiad i ddarparu arwyddion bod busnesau lleol ar agor o hyd.

## Materion Eraill

- 1.2.53 Bwriedir i'r gwaith arfaethedig nad yw ar y ffordd bresennol leihau'r effeithiau sy'n deillio o draffig adeiladu ar y cymunedau sy'n byw ar hyd y rhwydwaith ffyrdd presennol. O'r herwydd, bydd hi'n hanfodol bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r Strategaeth Fesul Cyfnod<sup>39</sup> a gyflwynwyd gan Horizon, sy'n dynodi darpariaeth erbyn diwedd blwyddyn 2. Mae CSYM yn gofyn i Horizon gadarnhau'r mesurau wrth gefn y byddai'n eu gweithredu pe byddai unrhyw oedi yn codi wrth gwblhau'r gwaith.
- 1.2.54 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yn nodi nifer o gyfleoedd y gallent godi o'r datblygiad o fewn coridor yr A5025. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried darparu seilwaith a chyfleustodau newydd neu wedi'u huwchraddio tra bod gwelliannau yn cael eu gwneud i'r A5025<sup>40</sup>. Mae CSYM yn mynnu bod hyrwyddwr y prosiect yn gweithio gyda darparwyr cyfleustodau er mwyn sicrhau bod unrhyw waith uwchraddio yn cael ei gynnwys yn nyluniad a gweithrediad y gwelliannau i'r A5025 pan fo modd, ac y dylid ystyried cydnherthedd a diogelu ar gyfer y dyfodol hefyd (e.e. gosod pibelli) er mwyn atal effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd yn y dyfodol, a chynnig gwaddol parhaol.
- 1.2.55 Mae CSYM yn fodlon mewn egwyddor â'r dyluniad a ddatblygwyd trwy gyfrwng y Cytundeb Cydweithio Priffyrdd rhwng Horizon a Thîm Prosiectau Mawr CSYM. Derbyniwyd yr egwyddorion dylunio ac mae Pennaeth Gwasanaeth Interim yr Adran Priffyrdd wedi cymeradwyo adroddiad

---

39

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[447]

40

SPG Wylfa Newydd 2018, tudalen 168 ([Dolen](#))



Amrywiadau ar y Safon Nad Ydynt ar Ffordd Bresennol yr A5025. Mae gan CSYM, fodd bynnag, nifer o bryderon ynghylch y manylion a gyflwynwyd, a gwrthwynebiadau iddynt. Mae CSYM yn nodi ar yr adeg hon bod ganddo wrthwynebiadau i rywfaint o'r manylion yn y cynigion hyn, a chyflwynir y rhain i'r Awdurdod Archwilio maes o law. Wrth adolygu'r cynlluniau hyn, mae CSYM wedi nodi nifer o bwyntiau hefyd y byddai modd gwneud gwelliannau yn eu cylch i'r cynigion manwl, gan gynnwys er enghraifft newid cynllun darpariaeth y llwybr a rennir er mwyn haneru nifer y pwyntiau croesi'r ffordd sy'n ofynnol i gerddwyr a symud y man croesi i bwyntiau i leoliadau lle y mae'r terfynau cyflymder yn is na'r terfyn cyflymder cenedlaethol, gan wella diogelwch. Nodir cyfleoedd i wneud gwelliannau o'r fath yng nghyflwyniadau CSYM am y manylion hefyd.

### **1.3 Sefyllfa y Polisi**

- 1.3.1 Mae polisi PS 9 y Cyd-gynllun Datblygu Lleol yn darparu'r fframwaith cyffredinol mewn perthynas â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, gan gynnwys y datblygiad sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae Maen Prawf 1 Polisi PS 1 yn darparu cyswllt rhyngddo a Pholisïau eraill yn y Cynllun y gallent fod yn berthnasol, yn ogystal ag SPGs. Mae'n disgwyl bod datblygiad yr orsaf bŵer niwclear a'r cynigion ar gyfer datblygiad cysylltiedig yn cael eu siapio gan y Polisiâu ychwanegol hyn a'r SPG.
- 1.3.2 Mae Maen Prawf 3 Polisi PS 9 yn arbennig o berthnasol hefyd, gan ei fod yn disgwyl i gynigion ynghylch priffyrdd a thrafnidiaeth ffurfio rhan o'r strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig sy'n ystyried Polisi PS 4 ac unrhyw bolisïau manwl perthnasol, gan leihau'r effeithiau niweidiol ar dtrafnidiaeth gymaint ag y bo modd i lefel dderbyniol.
- 1.3.3 Oherwydd ei bod yn debygol y bydd effeithiau annisgwyl, bydd gofynion maen prawf 16 Polisi PS 9, sy'n nodi disgwyliad y Cyngor y caiff mecanwaith adolygu cadarn ei ddatblygu er mwyn monitro amrediad llawn o effeithiau, yn adolygu digonolrwydd gweithgarwch lliniaru a mesurau digolledu a gwneud addasiadau yn ôl yr angen.
- 1.3.4 Yn ogystal, ar sail y materion a godwyd yn y Bennod hon, mae maen prawf 13 yn arbennig o berthnasol oherwydd ei fod yn nodi disgwyliad y Cyngor y bydd y datblygwr yn creu pecynnau priodol o fuddion cymunedol.
- 1.3.5 Gan symud ymlaen i Bolisïau manwl, nodir bod Adran 4 Polisi TRA 1 y Cyd-gynllun Datblygu Lleol (JLDP) yn nodi symudiadau i'r rhwydwaith trafndiaeth strategol trwy ddiogelu cynlluniau strategol hysbys a nodir yn y mapiau cynigion. Mae Maen Prawf (iii.) Adran 4 y polisi yn cyfeirio at welliannau ar yr A5025 Y Fali i Wylfa mewn perthynas â phrosiect Wylfa Newydd fel cynllun strategol sy'n ofynnol er mwyn darparu prosiect seilwaith arwyddocaol cenedlaethol.
- 1.3.6 Mae paragraffau 6.1.45 a 6.1.46 yr Esboniad i Bolisi TRA 1 yn y JLDP yn amlygu'r cyfyngiadau presennol ar hyd rhannau o'r A5025 ac mae'n nodi pedwar prif leoliad lle y mae gofyn gwneud gwelliannau sylweddol. Mae'r lleoliadau hyn yn cyfateb ag adrannau 1, 3, 5 a 7 Horizon ar gyfer gwaith ar y briffordd oddi ar y safle. Dangosir y lleoliadau/adrannau hyn fel ardaloedd wedi'u diogelu o fewn cynlluniau mewnosodedig perthnasol/Map Cynigion

JLDP. Mae CSYM yn nodi na ddangosir Cyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer fel safle wedi'i ddiogelu o fewn JLDP gan nad oedd yn rhan o'r cynllun strategol a nodwyd yn ystod y broses cyn-ymgeisio gynharach.

- 1.3.7 Mae SPG Wylfa Newydd yn pennu nifer o Egwyddorion Datblygu Allweddol (GP 27) cyffredinol, sy'n briodol i'r holl gynigion datblygu sy'n ymwneud â Wylfa Newydd o fewn yr ardal lle y byddai mwy o'r gwaith arfaethedig ar yr A5025 yn digwydd. Mae'r egwyddorion hyn yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod canlyniadau'r prosiect ar gymunedau ac amgylchedd Gogledd Ynys Môn yn cael eu lleihau gymaint ag y bo modd, a phan fo effeithiau arwyddocaol fel arall yn parhau, bod y rhain yn cael eu lliniaru. Yn ogystal, mae'r SPG yn pennu cysyniad digolledu ac mae'n cydnabod, o ystyried graddfa, cymhlethdod a hyd Prosiect Wylfa Newydd, y bydd adegau pan fo'r effeithiau fel ag y maent yn golygu nad oes modd eu mesur neu eu rhagweld.
- 1.3.8 Felly, mae'r SPG yn galw am sefydlu Cronfa Cydnerthedd Cymunedol (CRF) gan hyrwyddwr y prosiect o fewn y gweithgarwch cynllunio lliniarol. Dylid clustnodi rhan briodol ar gyfer Gogledd Ynys Môn yn y gronfa hon, a dylai geisio cynorthwyo mesurau i wella Gogledd Ynys Môn fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.
- 1.3.9 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi barn CSYM ynghylch y polisiau am bynciau penodol o fewn JLDP.

## Ecoleg

- 1.3.10 Mae'r polisiau sy'n berthnasol i weithgarwch lliniaru yn cynnwys Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae CSYM o'r farn bod y polisi a'r ddeddfwriaeth genedlaethol hon, a gefnogir gan bolisi lleol isod, yn cyfiawnhau'r gweithgarwch lliniaru ychwanegol y gofynnwyd amdano uchod.
- 1.3.11 Mae Maen Prawf 8 Polisi PS 9 JLDP yn disgwyl bod cynllun a dyluniadau cynllun, ... gwaith plannu (gan gynnwys perthi a lleiniau coed), ac ati yn osgoi, yn lleihau gymaint ag y bo modd, yn lliniaru neu'n digolledu am amrediad o effeithiau, gan gynnwys effeithiau ecolegol yn y tymor byr a'r tymor hwy.
- 1.3.12 Mae Polisi Strategol PS 5 JLDP yn nodi y dylai pob cynnig '*ddiogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei thirluniau a'i hasedau bioamrywiaeth*',
- 1.3.13 Mae Polisi Strategol PS 19 JLDP yn darparu'r fframwaith cyffredinol mewn perthynas â diogelu a phan fo hynny'n briodol, gwella'r amgylchedd naturiol. Mae meini prawf 4 a 8 yn arbennig o berthnasol, sy'n nodi y dylid diogelu a gwella bioamrywiaeth ac y dylid gwella cynefinoedd naturiol a/neu eu hadfer, ac wrth benderfynu ynghylch cais cynllunio, mae angen '*Diogelu, cadw neu wella coed, gwrychoedd neu goetir o werth gweledol, ecolegol, diwylliannol hanesyddol neu amwynder*'. Mae Polisi AMG 5 JLDP Rhoi sylw i Gadwraeth Bioamrywiaeth Lleol yn datblygu Polisi PS 19 ac mae'n nodi bod yn rhaid i gynigion '*ddiogelu, a phan fo hynny'n briodol, gwella bioamrywiaeth ... gan ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirlun naturiol, gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt...coed, perthi*' ac ati.
- 1.3.14 Mae GP21 SPG Wylfa Newydd Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn nodi '*pan na ellir osgoi effeithiau niweidiol, bydd gofyn gweithredu mesurau lliniaru a/neu ddiogledu priodol*'.

- 1.3.15 Mae GP31 SPG Wylfa Newydd Coridor A5025 yn nodi bod yr amgylchedd naturiol yn fater allweddol, ac mae'n nodi na ddylai cynnig ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad gyda chynigion datblygu eraill gael effeithiau niweidiol sylweddol ar asedau ecolegol o fewn ac yn agos i'r Ardal Chwilio.
- 1.3.16 O ran y polisi lleol y cyfeiriwyd ato, mae CSYM o'r farn eu bod yn cynnig cyfiawnhad digonol er mwyn mynnu bod Horizon yn darparu manylion a gwybodaeth ychwanegol er mwyn cyfiawnhau cwmpas yr asesiad a gynhaliwyd ac y dylid cyflwyno mesurau lliniaru ychwanegol, ac y dylai CSYM a Horizon gytuno arnynt. Mae'r mesurau yn ofynnol er mwyn cynnig diogelwch digonol ar gyfer derbynyddion ecolegol presennol megis Adran 7 mamaliaid ac amffibiaid.

### **Tirlun a Gweledol**

- 1.3.17 Mae Polisi Strategol PS 9: Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig yn nodi dan faen prawf 8 "*Y dylai cynllun y cynllun ... tirlunio, plannu (gan gynnwys perthi a lleiniau coed), ... osgoi, lleihau, lliniaru neu ddigolledu am effeithiau gweledol, tirlun ac ecolegol ar yr ardal leol a'r ardal ehangach.*" Mae maen prawf 13 yn nodi "*Dylid cydnabod ... y faich a'r amhariad ar y gymuned; a chaiff pecynnau buddion cymunedol priodol a ddarparir gan y datblygwyr eu ceisio er mwyn gwrthbwysu a digolledu'r gymuned ...*" Mae'r ddau faen prawf hwn yn cefnogi'r angen i ddarparu gweithgarwch lliniaru a digolledu, yr olaf ar ffurf gwaith tirlunio a phlannu sgrin oddi ar y safle, lle y bydd ei ddarpariaeth yn lleihau'r effeithiau gweledol niweidiol y bydd preswylwyr yn eu dioddef o bosibl.
- 1.3.18 Mae Polisi Strategol PS 9, maen prawf 16 yn nodi y bydd amgylchiadau annisgwyl yn deillio o'r cyfnodau adeiladu a gweithredu wrth i'r prosiect ddatblygu, y bydd gofyn i'r datblygwyr wneud gwaith ychwanegol o'u herwydd er mwyn gwrthbwysu unrhyw effeithiau ychwanegol y bydd y gymuned yr effeithir arni yn eu dioddef h.y. Y Fali, Llanfaethlu, Tregale. Gallai hyn fod yn berthnasol os na fydd y gwaith tirlunio arfaethedig ar y safle yn cyflawni ei rôl hidlo a sgrinio y tybiwyd y byddai mewn ffordd effeithiol, nac yn cysylltu'r gwaith ar y briffordd mewn ffordd foddhaol â chymeriad y tirlun o'i gwmpas. Mae CSYM o'r farn bod angen i'r datblygwyr fonitro effeithiau ac adolygu digonolrwydd y mesurau lliniaru a gwneud addasiadau yn ôl yr angen. Gallai addasiadau o'r fath gynnwys darparu gwaith plannu ychwanegol ar y safle ac oddi ar y safle.
- 1.3.19 Bydd angen i unrhyw waith plannu lleol o fewn neu gerllaw y cymunedau gyd-fynd â nifer o'r meini prawf ym Mholisi PCYFF: Dylunio a Thirlunio. Mae'r esboniad atodol yn nodi y gall cynllun tirlun wedi'i ddylunio a'i weithredu yn dda ddatblygu i fod yn "*ased parhaus i'r gymuned*" ac mai'r nod cyffredinol yw "*sicrhau amgylchedd gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ac sy'n gweithio yn ardal y Cynllun gymaint ag y bo modd*".
- 1.3.20 Mae SPG Wylfa Newydd yn darparu canllawiau polisi ynghylch y gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i briffordd A5025.
- 1.3.21 Mae darparu cynigion lliniaru a digolledu ynghylch effeithiau ar y tirlun a'r amwynder gweledol yn cyd-fynd am Amcan 3 SPG, yn enwedig yr angen i sicrhau y caiff mesurau eu gweithredu er mwyn lliniaru a/neu ddigolledu am

effeithiau negyddol sylweddol cynigion a chynorthwyo cymunedau lleol lle y gallai'r effeithiau hyn ddigwydd; a gwneud yn siŵr bod digolledu yn cael ei sicrhau am effeithiau niweidiol gweddilliol na ellir eu lliniaru.

- 1.3.22 Byddai cynigion lliniaru a digolledu yn cyd-fynd ag Amcan 4 hefyd, yn enwedig sicrhau y gweithredir mesurau i leihau effeithiau ar amwynder gweledol gymaint ag y bo modd trwy gyfrwng lliniaru priodol a digolledu, ac ar gyfer Amcan 7 sy'n ceisio gwella tirlun arbennig yr Ynys a darparu fel digolledu ar gyfer effeithiau gweledol niweidiol gweddilliol na ellir eu lliniaru.
- 1.3.23 GPs ychwanegol yr ystyrir ei fod yn berthnasol yw GP 7: Iechyd, sy'n nodi y dylai mesurau lliniaru sy'n ymwneud ag iechyd gynnwys dyluniadau ffisegol y datblygiad newydd gan gynnwys ystyried sgrinio er mwyn lleihau'r effeithiau ar dderbynyddion sensitif gymaint ag y bo modd h.y. preswylwyr yn yr ardal astudio gyffredinol; a monitro'r effeithiau posibl gan gynnwys mewn perthynas â llygredd golau.
- 1.3.24 Mae GP 21 SPG: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn pennu disgwyliad CSYM bod Horizon yn archwilio cyfleoedd i wella amgylchedd naturiol a gwasanaethau ecosystem yr Ynys, gan gynnwys trwy fabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel (is-egwyddor xv) a chynlluniau tirlunio (is-egwyddor xix) ac mae GP 24: Rhwymedigaethau Cynllunio yn nodi y dylai digolledu a lliniaru ymwneud ag effeithiau go iawn neu dybiedig Prosiect Wylfa Newydd mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol, gan gynnwys effeithiau niweidiol ar iechyd a lles cymunedau.
- 1.3.25 Mae GP 31 SPG Coridor A5025 yn nodi y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i leoliad, graddfa a dyluniad datblygiad er mwyn diogelu a gwella AHNE Ynys Môn ac y dylai'r deunyddiau a ddefnyddir mewn prosiectau gwella ffordd (ar gyfer waliau, llwybrau troed ac ati) adlewyrchu'r cymeriad lleol, gan gollu cyn lleied o lystyfiant a chynefin ag y bo modd a'i ddisodli pan gaiff ei gollu.

### **Dŵr Wyneb a Dŵr Daear**

- 1.3.26 Mae Polisi Strategol JLDP PS 5 Datblygu Cynaliadwy, meini prawf 6, 7 ac 8 yn ceisio diogelwch a gwelliant ar gyfer yr amgylchedd naturiol, yr angen i osgoi llygredd gan ddatblygiad newydd a lleihau'r effaith sy'n deillio o ddatblygiad ar ansawdd ac adnoddau dŵr, yn ogystal â'r angen i reoli risg llifogydd a manteisio i'r eithaf ar y defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy.
- 1.3.27 Mae SPG Wylfa Newydd yn GP20 Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd yn gofyn am weithrediad mesurau priodol er mwyn ystyried effeithiau y newid yn yr hinsawdd megis darparu lle storio yn ystod llifogydd at ddibenion digolledu a defnyddio SuDS. Mae'n gofyn hefyd am gynlluniau rhybuddio rhag llifogydd a gadael mewn argyfwng.
- 1.3.28 Mae SPG Wylfa Newydd GP22 Diogelu'r Amgylchedd Dŵr yn mynnu bod hyrwyddwr y prosiect yn dangos na fyddai'r prosiect yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr, cynefinoedd glannau afon a nodweddion dyfrol, a phan nodir y potensial o weld effeithiau niweidiol, y gweithredir mesurau lliniaru priodol. Ymhellach, mae'r Egwyddor Arweiniol yn galw am reoli dŵr wyneb ffo trwy gyfrwng cynlluniau draenio cynaliadwy.

1.3.29 Mae GP 21 SPG Coridor A5025 yn nodi cyfleoedd i'w cymryd mewn perthynas â'r coridor sy'n cynnwys gwella ansawdd dŵr cyrsiau dŵr a gwanhau'r dŵr ffo oddi ar y ffordd yn well. Ystyrir bod polisi cynllun a chanllawiau SPG yn cefnogi safbwynt CSYM mewn perthynas â'r gofyniad am wybodaeth ychwanegol er mwyn ei alluogi i lwyr ddeall arwyddocâd y gwaith fel y'i cynigir.

### **Amgylchedd Hanesyddol**

1.3.30 Mae Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig yn nodi ym maen prawf 8 *“Y dylai cynllun y cynllun osgoi, lleihau gymaint ag y bo modd, lliniaru neu ddigolledu..... am agweddau diwylliannol a hanesyddol ar y tirlun, yn y tymor byr a'r tymor hwy. Ac mae Polisi PCYFF 3 Dylunio a Siapio Lle yn nodi bod yn rhaid i'r holl gynigion ystyried y cyd-destun naturiol, hanesyddol ac amgylcheddol adeiledig. Yn ogystal, ar sail y materion a godir yn y Bennod hon, mae Polisi PS 20, y Polisi cyffredinol sy'n ymwneud â diogelu a phan fo hynny'n briodol, gwella asedau treftadaeth, yn arbennig o berthnasol. Yn unol â deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol, mae'n cefnogi cynigion sy'n llwyr ystyried yr effeithiau ar amrediad o asedau treftadaeth, sy'n cynnwys Adeiladau Rhestredig a'u cwrtailau, a Pharciau a Gerddi Cofrestredig.*

1.3.31 Mae SPG Wylfa Newydd yn cydnabod bod nifer fawr o asedau hanesyddol dynodedig o fewn Coridor yr A5025, gan gynnwys Adeiladau Rhestredig a pharc a gardd hanesyddol gofrestrdedig. Yn SPG GP 31, nodir y dylai cynigion datblygu geisio osgoi effeithiau niweidiol ar asedau hanesyddol yr ardal a'u lleoliadau ac y dylai cynigion fabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu ac yn gwella'r cymeriad lleol, gan gynnig lle cyhoeddus diogel a hygyrch. Mae'r canllawiau polisi hyn yn cefnogi cais CSYM y dylid darparu mynediad a gwaith dehongli gwell wrth Faen Hir Capel Soar.

1.3.32 Byddai CSYM yn dymuno cael cynigion Horizon ynghylch darparu bwrdd gwybodaeth neu rywbeth tebyg wrth Faen Hir Capel Soar.

### **1.4 Bylchau mewn Gwybodaeth**

1.4.1 Ar sail gwybodaeth CSYM am y safle a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn ei asesiad, nodwyd nifer o fylchau o ran y wybodaeth. Cyfeirir at y bylchau hyn uchod ac maent yn cynnwys ar gyfer gwybodaeth annigonol yn yr is-CoCP<sup>41</sup> a gyflwynwyd.

### **Ecoleg**

1.4.2 Mae Horizon yn nodi bod symud llygod y dŵr a chwiliadau dinistriol mewn gwalau yn gallu digwydd dan drwydded NRW, ond mae CSYM yn dymuno i NRW egluro hyn. Bydd angen nodi'r dull lliniaru yn fanwl mewn datganiad dull ar gyfer safle penodol a bydd gofyn iddo gael ei gymeradwyo gan NRW. Byddai CSYM yn gofyn bod datganiad dull drafft yn cael ei baratoi cyn diwedd y gwaith archwilio.

- 1.4.3 Yn ogystal, mae CSYM yn gofyn am gwmpas wedi'i seilio ar leoliad penodol ar gyfer gweithgarwch lliniaru ymlusgiaid/moch daear ar sail data arolygu, a bod hwn yn cael ei nodi'n fanwl mewn datganiad dull.
- 1.4.4 Nid yw'r asesiad ecolegol yn glir ynghylch y gofyn am a'r cwmpas ar gyfer mesurau i liniaru'r effeithiau ar ystlumod, dyfrgwn a physgod. Yn ogystal, nid yw'n pennu cyswllt clir rhwng yr asesiad o'r effeithiau ar GCN, data arolwg GCN sy'n sail i hyn a chynigion lliniaru penodol. Ni nodir y gofyniad am weithgarwch lliniaru GCN neu fel arall wrth Gyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer a dylid darparu gwybodaeth bellach.
- 1.4.5 Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, mae'n aneglur a chaiff arferion gwaith rhagofalus i leihau'r risg o niweidio madfallod cyffredin eu cynllunio neu a ydynt yn angenrheidiol/priodol yn y safle hwn. Dylid nodi unrhyw fesurau o'r fath, os byddant yn ofynnol, mewn datganiad dull a dylid cytuno arnynt gyda CSYM.
- 1.4.6 Gallai'r datganiadau dull y gofynnwyd amdanynt gael eu cynnwys mewn is-CoCP mewn ffordd briodol. Yn ogystal, dylai'r is-CoCP wedi'i ddiweddarau gynnwys mesurau i symud unrhyw famaliaid Adran 7 cyn y gwneir gwaith cloddio a/neu symud madfallod cyffredin; terfynau cyflymder i osgoi niweidio bywyd gwyllt; mesurau i osgoi creu llochesau bywyd gwyllt yn ystod y cyfnod adeiladu; mesurau i reoli gwastraff (gweithredol ac adeiladu) er mwyn osgoi cynnydd ym maint poblogaeth y llygod mawr a'r effeithiau cysylltiedig ar e.e. llygod y dŵr; gorchuddio a selio (e.e. defnyddio tywod) cloddiadau neu gynnig ffordd i anifeiliaid caeth ddianc, megis rampiau neu ymylon/terfynau sy'n goleddfu yn raddol. Dylai mesurau i osgoi troseddau sy'n ymwneud ag adar sy'n magu fod yn berthnasol i strwythurau, gan gynnwys waliau cerrig, yn ogystal â llystyfiant.

## Tirlun a Gweledol

- 1.4.7 Mae CSYM yn gofyn bod Atodiad ES G10-7 Adroddiadau Coed ac Effaith ar Goedyddiaeth<sup>42</sup> yn cael ei ddiweddarau i gynnal arolwg o'r llystyfiant ger cyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer. Mae'r Atodlen Effeithiau Tirlun (Atodiad ES G10-3)<sup>43</sup> yn nodi y bydd rhan o glawdd yn cael ei golli wrth gyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer ond mae Ffigurau ES D9-03 a D9-10<sup>44</sup> yn dangos wal gerrig a gwrych wrth ymyl y ffordd yn lleoliad y gyffordd arfaethedig hon. Ni ddangosir lleoliad y gyffordd ar hyn o bryd (felly nid yw hi'n glir faint o'r ffabrig presennol hwn o'r tirlun fyddai'n cael ei waredu) ac

42

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[342]

43

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[338]

44

'Arolwg cynefin Cam 1' a 'Chynefinoedd a restrir yn unol ag adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) o fewn ardal astudiaeth yr arolwg', Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[237]

mae'r cynlluniau yn seiliedig ar Arolwg Cynefin Cam 1 a gynhaliwyd ar WNDA yn 2013 (felly mae data'r arolwg wedi cael ei gasglu dros 5 mlynedd yn ôl).

- 1.4.8 Dylid cynnal arolwg er mwyn nodi lleoliadau'r holl gloddiau sy'n ffiniau caeau ar hyd llwybr gwaith nad yw ar ffordd bresennol A5025, gan gynnwys y rhai y cyfeirir arnynt ym Mhennod G10 ES ac Atodiad G10-3 ES.
- 1.4.9 Dylid diweddarau Ffigurau ES G9-11 – G9-16 (Canlyniadau Arolwg Cynefin Cam 1)<sup>45</sup> i ddangos y ffordd a'r argloddiau arfaethedig wedi'u arosod mewn amlinellid golau yn unig (fel bod modd gweld y terfynau caeau a'r llystyfiant arall i'w waredu dan y llwybr yn glir) ac er mwyn dangos y ffiniau caeau hynny sy'n gloddiau neu'n gloddiau sydd â glaswellt arnynt (i'w cadw a'u gwaredu).
- 1.4.10 Dylid diweddarau Cynlluniau Clirio Safle (2.7 – 2.10: Gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i Briffordd A5025 – Adran 1 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00004), Adran 3 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00017 - 20), Adran 5 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00039 - 40) ac Adran 7 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00052 - 53))<sup>46</sup> er mwyn nodi unrhyw gloddiau a chloddiau sydd â glaswellt arnynt, i'w gwaredu.
- 1.4.11 Dylid ymestyn lluniad IH306 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00020)<sup>47</sup> tua'r de er mwyn cynnwys yr holl Wrychoedd Pwysig i'w gwaredu er mwyn galluogi'r gyffordd newydd rhwng y llwybr nad yw ar y ffordd bresennol a'r ffordd ymyl/A5025 bresennol i'r de o IH306. Yn ogystal, dylid nodi'r gwrych wrth ymyl y ffordd ar hyd ochr orllewinol yr A5025 sy'n bodoli eisoes, yn sythlin i ac i'r gogledd-orllewin o IH509 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00039)<sup>48</sup> fel Gwrych Pwysig i'w waredu.
- 1.4.12 Dylid cynnig eglurder i CSYM ynghylch y ffiniau caeau (gwrychoedd a waliau) a ddangosir yn Atodiad ES G10-9 15025 Cynllun Tirlun – Ffigurau 1 – 10 a Chyfrl 3 DAS Atodiad 1-5 Atodiad A<sup>49</sup>. Mae'r ddau luniad hwn yn dangos y llystyfiant sy'n bodoli eisoes a gedwir (gwyrdd) a waliau presennol a gedwir (dotiau brown) a hefyd, y llystyfiant presennol (yn llwyd) a'r waliau presennol (llwyd tywyll) y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cadw hefyd. Nid yw'r

---

45

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[353]

46

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[019-022]

47

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[020]

48

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[021]

49

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[344 a 410]

cynlluniau hyn yn dangos Terfynau'r Gorchymyn ac efallai mai'r bwriad yw gwahaniaethu rhwng y llystyfiant sy'n bodoli eisoes a'r waliau i'w cadw y tu mewn i Derfynau'r Gorchymyn a'r llystyfiant presennol a'r waliau y maent y tu hwnt i Derfynau'r Gorchymyn ac felly, na fyddent yn cael eu heffeithio, ond nid yw'n ymddangos mai dyma'r hyn a welir ym mhob lleoliad.

- 1.4.13 Mae egwyddor dylunio 9 (Atodiad 1-5 Cyfrol 3 DAS, paragraffau 3.3.1 – 3.3.3 a thabl yr egwyddorion dylunio)<sup>50</sup> yn nodi bod yn “rhaid llacio llethrau cloddwaith i'r de o'r draphont yn adran 3 er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol ar gymeriad y tirlun a'r golygfeydd o'r eiddo preswyl cyfagos a'r AHNE ...”. Mae gofyn cael eglurder ynghylch a yw'r llethrau cloddwaith wedi cael eu llacio yn barod neu a yw hyn yn fesur lliniaru ychwanegol a fyddai'n cael ei gynnwys yn nyluniad manwl y cynllun.
- 1.4.14 Mae egwyddor dylunio 16 (Atodiad 1-5 Cyfrol 3 DAS, paragraffau 3.3.1 – 3.3.3 a thabl yr egwyddorion dylunio) yn nodi “bod yn rhaid i aliniadau ffordd weithio gyda phatrymau caeau a defnydd tir presennol er mwyn lleihau gweithgarwch torri caeau pan fo modd”. Mae'r bedair adran yn arwain at dorri caeau a phocedi bychain o dir ond byddai'n anodd osgoi hyn. O safbwynt ffermwyr a thirfeddianwyr eraill, bydd mynediad i gaeau sy'n cael eu gwahanu o'r prif daliad tir gan adrannau ffordd newydd yn bwysig, ac mae'n amlwg o'r cynlluniau bod llwybrau amrywiol wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Tirlun er mwyn datrys mynediad i rai tirfeddianwyr.
- 1.4.15 Mae egwyddor dylunio 21 (Atodiad 1-5 Cyfrol 3 DAS, paragraffau 3.3.1 – 3.3.3 a'r tabl egwyddorion dylunio) yn nodi “rhaid cynnig llacio'r llethrau cloddwaith yn adran nad yw ar y ffordd Llanfaethlu er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol ar olygfeydd o eiddo preswyl cyfagos ...”. Mae gofyn cael eglurhad ynghylch a yw'r llethrau cloddwaith eisoes wedi cael eu llacio neu a yw hwn yn fesur lliniaru ychwanegol a fyddai'n cael ei gynnwys yn nyluniad manwl y cynllun.
- 1.4.16 Mae egwyddor dylunio 24 (Atodiad 1-5 Cyfrol 3 DAS, paragraffau 3.3.1 – 3.3.3 a'r tabl egwyddorion dylunio) yn nodi “lle y mae gofyn symud waliau cerrig a chloddiau fel rhan o'r gwaith adeiladu, caiff eu colli ei liniaru trwy eu hailadeiladu gan ddefnyddio deunyddiau gwreiddiol pan fo hynny'n ymarferol, er mwyn cynnal patrymau caeau hanesyddol”. Ar ôl y darparir gwybodaeth am y cloddiau sy'n bodoli eisoes, efallai y dylid cynnig cloddiau ar hyd rhai adrannau o'r cynlluniau a'r gwaith nad yw ar ffordd yr A5025 a dylid cyflwyno cynlluniau sy'n dangos y rhain.
- 1.4.17 Mae angen i'r Cynllun Tirlun A5025 arfaethedig (a ddangosir yng nghynlluniau Trefniant Cyffredinol Gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i Briffordd A5025 (2.7 – 2.10: Adran 1 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00002 - 3), Adran 3 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00013 - 16), Adran 5 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00037 - 38), Adran 7 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00049 - 51)<sup>51</sup>

---

50

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[410]

51

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[020. 021 a ]



a 2.6.1: Cyffordd y ffordd fynediad i'r Orsaf Bŵer (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00063)<sup>52</sup> a hefyd yn Atodiad G10-9 ES Cynllun Tirlun A5025 – Ffigurau 1 – 10 ac Atodiad A Atodiad 1-5 Cyfrol 3 DAS<sup>53</sup> gael ei ddiweddarau er mwyn dangos lleoliadau cloddiau sydd â glaswellt arnynt a chloddiau i'w hailadeiladu, er mwyn sicrhau bod pob parcel o dir sy'n deillio o dorri caeau o ganlyniad i ddarnau newydd yr A5025 yn cael mynediad a gatiâu cae newydd, a chan gynnwys y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

1.4.18 Mae angen diweddarau lluniad Manylion Ffiniau Gwelliannau nad ydynt ar y ffordd i Briffordd A5025 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00068 yn 2.7 – 2.10)<sup>54</sup> hefyd, er mwyn cynnwys manylion adeiladu ar gyfer clawdd.

1.4.19 Mae'r strategaeth cynnal Tirlun (Atodiad 1-5, Cyfrol 3, DAS, paragraffau 4.6.16 – 4.6.17 a Thabl 2)<sup>55</sup> ar gyfer elfennau tirlun meddal y cynllun am 3 blynedd ar hyn o bryd, ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae angen i'r strategaeth rheoli tirlun hon fod am gyfnod o 5 mlynedd ac mae angen iddi gynnwys 5 mlynedd o gynnal a chadw elfennau caled y tirlun hefyd (h.y. walïau cerrig, cloddiau, cloddiau sydd â glaswellt arnynt, ffensys, gatiâu, camfeydd, wyneb llwybr troed a llwybr beicio, ac ati), fel y cytunwyd ar gyfer y Gwaith ar Briffordd bresennol yr A5025.

### **Dŵr Wyneb a Dŵr Daear**

1.4.20 Barnir bod y bylchau o ran y wybodaeth a gyflwynwyd gan Horizon yn cynnwys y canlynol:

- a) Ar gyfer Adran 7 A5025, ni ddarparir manylion sylweddol ynghylch ceuffos Afon Cafnan dros raeadr creigwely (mewn cyferbyniad, darparir y manylion hyn am y geuffos a gynigir ar gyfer Nant Llygeirian mewn man arall yn yr adran hon o A5025). Dylid darparu lluniadau amlinellol o ddull gweithredu posibl/datganiadau technegau ceuffos.
- b) Trefniadau er mwyn draenio o argloddiau ffordd ac yn arbennig, yr angen am waith teneuo. Mae'n ymddangos bod y dyluniadau yn dangos, mewn achosion pan gaiff dim ond ardaloedd o argloddiau ffordd newydd (serth) eu draenio, bod hyn pasio i gyrsiau dŵr yn uniongyrchol. Mae angen i CSYM

---

52

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[015]

53

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[344 a 410]

54

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[022]

55

Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio APP-[410]

ddeall a asesir bod hyn yn ddibwys o ran cyfraddau dŵr sy'n llifo, neu a ystyriwyd gostyngiadau pro-rata yng nghyfradd y dŵr sy'n llifo yn yr is-ddalgylchoedd tenau eraill).

c) Gwybodaeth ynghylch y sefyllfa at raid er mwyn delio â'r risg llifogydd gweddilliol yn yr eiddo dienw yn adran 3 (traphont Afon Alaw) os bydd dyluniad o'r fath yn anymarferol yn ffisegol/ariannol.

d) Dylid darparu manylion pellach gan gynnwys adeiladwaith, cyfanswm tynnu a diben mewn perthynas â ffynhonnau a chyflenwadau dŵr preifat.

### ***Dyluniad a throsglwyddo i gyfundrefn priffordd gyhoeddus***

1.4.21 Byddai'r Awdurdod Priffyrdd yn nodi bod gofyn iddo gael gwybodaeth nad yw wedi ei chael eto:-

a) Gofynion trosglwyddo tir er mwyn galluogi'r Awdurdod Priffyrdd i ddeall a phennu graddau'r tir i'w ddynodi yn briffordd gyhoeddus, a gaiff ei gynnal a'i gadw gan bwrs y wlad, yn llawn.

b) Yn ychwanegol i hyn, mae CSYM yn cymryd na chaiff nodweddion ffin eu cynnal a'u cadw gan yr Awdurdod Priffyrdd. Fodd bynnag, os bydd hyn yn wahanol, mae CSYM yn gofyn am atodlen o nodweddion ffin y bydd gofyn i'r Awdurdod Priffyrdd eu cynnal a'u cadw ar ôl gwneud y gwelliannau. Dylid datblygu a chwblhau'r atodlen gyda chytundeb CSYM fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio Priffyrdd.

c) Yr hawliau mynediad a roddir i'r Awdurdod Priffyrdd er mwyn galluogi mynediad llawn i holl strwythurau'r briffordd o bob cyfeiriad (gan gynnwys trosbontydd, tanffyrdd a cheuffosydd) a phyllau gwanhau at ddibenion cynnal a chadw.

d) Mae CSYM fel yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon ac yn gallu ymrwymo i gytundebau i hwyluso'r gwaith angenrheidiol ar y briffordd gyhoeddus mewn ffordd sy'n parchu angen yr Awdurdod Priffyrdd i gynnal rheolaeth dros y rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus a rheoli deiliadaeth y cerbyttfordd er budd diogelwch y cyhoedd a rheolaeth traffig effeithiol. Nid yw Horizon wedi ceisio cytundeb ynghylch ffyrdd amgen o sicrhau'r hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith hwn. Llwyddwyd i gwblhau cytundeb S278 yn llwyddiannus rhwng Horizon a CSYM ar gyfer y gwaith ar ffordd A5025 a byddai CSYM yn fodlon symud ymlaen gyda chytundebau o'r fath (h.y. S278 a/neu S38) er mwyn hwyluso'r gwaith hwn nad yw ar y ffordd bresennol.

e) CSYM a Horizon i gytuno ar Swm Cynhaliaeth Ohiriedig ar gyfer cynnal a chadw'r briffordd gyhoeddus newydd.

## **1.5 Gofynion a Rhwymedigaethau DCO**

### **Gofynion**

1.5.1 O gael gwybodaeth ychwanegol, mae CSYM yn debygol o ofyn am ddiwygiadau i'r is-COCP perthnasol. Os na ddarparir hwn cyn cwblhau'r archwiliad, dylid ailddrafftio'r gofyniad DCO presennol, OH1, er mwyn sicrhau y caiff is-CoCP manwl ei ddarparu i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith datblygu gychwyn. Yn gryno, bydd angen i'r is-CoCP manwl gynnwys ar gyfer:

- a) Y wybodaeth bellach a'r datganiadau dull y rhoddir crynodeb ohonynt o fewn Ecoleg, 'Bylchau mewn Gwybodaeth';
- b) Mesurau i hysbysu busnesau a rhoi cyhoeddusrwydd i lwybrau mynediad amgen;
- c) Cynllun rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus penodol er mwyn rheoli hawliau tramwy presennol y maent yn debygol o gael eu heffeithio dros dro ac yn barhaol;
- d) Mesurau i sicrhau bod PWS a ffynhonnau sy'n bodoli eisoes yn cael eu diogelu a'r trefniadau amgen i'w gwneud os bydd effeithiau yn digwydd;
- e) Darparu cynllun i reoli rhywogaethau goresgynnol sy'n nodi'r rhywogaeth oresgynnol a'r mesurau rheoli a ddefnyddir, i'w gyflwyno i'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle;
- f) Darparu cynllun sy'n nodi'r coed, y prysgwydd, y gwrychoedd, y cyrsiau dŵr a'r nodweddion tirlun eraill (ee cloddiau, waliau cerrig, banciau daear) sy'n bodoli eisoes, i'w cadw, a'r mesurau i'w defnyddio i ddiogelu'r rhain yn ystod y cyfnod adeiladu, i'w gyflwyno i'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle;
- g) Datganiad dull cludiant adeiladu manwl yn nodi'r llwybrau i'w defnyddio, mesurau penodol i'w gweithredu er mwyn sicrhau y caiff y traffig adeiladu ei reoli mewn ffordd gywir yn unol â'r gwaith ar yr A5025. Ar hyn o bryd, mae'r is-CoCP yn delio â hyn mewn hanner tudalen.

1.5.2 Os na chaiff gwybodaeth benodol y gofynnir amdani uchod ei darparu yn ystod yr archwiliad, byddai CSYM yn pennu gofyniad am arolwg o'r elfennau tirlun caled sy'n bodoli eisoes o fewn terfynau'r DCO (ffensys, waliau cerrig, cloddiau, ac ati) sy'n nodi eu lleoliadau, eu deunyddiau, eu cyflwr a'u cyfraniad i gymeriad y tirlun a'r amwynder gweledol, gan gynnwys eu gwerth sgrinio ar gyfer eiddo cyfagos. Dylid cynnal hyn yn ystod y gaeaf a'i gyflwyno i'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle.

1.5.3 Yn ogystal, byddai CSYM yn gofyn am arolygon tirlun hanesyddol, arolwg topograffig a thirlun ac arolygon ffotograffig (fel y disgrifiwyd ym mharagraffau 12.4.1 – 2 CoCP Wylfa Newydd). Bydd y rhain yn gofnod parhaol o ffabrig y tirlun presennol a chymeriad y safle, byddant yn cyfrannu at ddyluniad manwl o'r Gwaith nad yw ar y ffordd bresennol i Briffordd A5025 a bydd yn cyfrannu at y broses o ailosod ffabrig y tirlun y bydd y gwaith wedi tarfu arno. Dylid cynnal yr arolygon yn ystod y gaeaf a'r haf, a'u cyflwyno i'r Cyngor, a'u cymeradwyo ganddo, cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle.

1.5.4 Dylid darparu gofyniad am ddyluniadau manwl o'r pyllau gwanhau y dylent fod yn fwy sympathetig i gymeriad presennol y tirlun y mae ganddo fwy o werth tirlun ac ecolegol. Dylid cyflwyno manylion i'r Cyngor a'u cymeradwyo cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle.

1.5.5 Er mwyn rhoi sylw i effeithiau gweledol a nodwyd, dylid darparu neu gytuno ar y gwelliannau plannu a llwybr troed lliniarol neu ddigolledu canlynol trwy gyfrwng gofyniad DCO.

### 1.5.6 Adran 1

- a) Ceir dau grŵp o dderbynyddion gweledol lle y dylid ystyried atgyfnerthu'r gwaith plannu sy'n bodoli eisoes oddi ar y safle. Yn R4, daeth adolygiad CSYM i'r casgliad y gallai fod cwmpas cyfyngedig ac ym Mynwent Y Fali, mae'r gwaith plannu presennol ar hyd y ffin yn llai helaeth, ac o ganlyniad, mae llai o gwmpas i wneud gwaith plannu ychwanegol o fewn ac ar hyd y ffin gorllewinol.
- b) Digolledu ar ffurf gwelliannau i'r ddwy Hawl Dramwy Gyhoeddus (Cyfeiriadau 49/016/1 a 2 a 49/009/1 ar y Map Diffiniol) sy'n cynnwys gwelliannau i'r llwybr troed a'r arwyddion.

### 1.5.7 Adran 3

- a) Dim ond gwrychoedd brodorol gyda choed ar ben gogleddol (a glaswelltir) a gwrychoedd brodorol ar ben deheuol (a glaswelltir) yn Adran 3 y mae'r Cynllun Tirlun yn ei gynnig. Yn unol ag unrhyw gyfyngiadau ecolegol, efallai bod cwmpas i gael rhai coed unigol ychwanegol, prysgwydd gyda choed ysbeidiol a/neu blannu prysgwydd brodorol. Byddai hyn yn cynyddu'r gweithgarwch hidlo golygfeydd o'r rhwystr sŵn, ac ar gyfer rhai derbynyddion gweledol, eu golygfeydd ar hyd y gerbyttffordd.
- b) Byddai mesurau lliniaru oddi ar y safle yn gofyn am fwy o arwyddion a mynediad a gwelliannau diogelwch ar gyfer yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus hynny a fydd yn parhau i fod ar agor yn ystod y cyfnod adeiladu e.e, PR10 a PR7. Byddai'r gwelliannau yn ymestyn i'r cyfnod gweithredu ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n cael eu cau dros dro, e.e. PR13, PR9, a PR8.
- c) Dylid ystyried atgyfnerthu'r gwaith plannu sy'n bodoli eisoes oddi ar y safle er mwyn lleihau'r effeithiau ar grwpiau derbynyddion gweledol. Byddai hyn yn canolbwyntio ar ffiniau caeau sy'n bodoli eisoes, a ffurfiwyd gan wrychoedd a/neu ffensys pyst a weiren yn Llanfachraeth ac yn PR8 wrth atgyfnerthu gwrychoedd. Byddai gwaith plannu yn cynnig rhywfaint o sgrinio ychwanegol hefyd o ben deheuol Adran 3 ar gyfer preswylwyr yn R23 Tyn Fynnon. Yn ogystal, byddai CSYM yn dymuno gweld gwaith plannu ar ochr ddeheuol pen gorllewinol T1. Byddai hyn yn cynnig rhywfaint o sgrinio ychwanegol o ben gogleddol Adran 3 hefyd i breswylwyr yn R33 a defnyddwyr PR13, y newidiwyd ei lwybr yn barhaol.

### 1.5.8 Adran 5

- a) Ceir y potensial i wneud gwaith plannu coed ysbeidiol a llwyni ychwanegol cyfyngedig ar y safle gerllaw cyffordd Adran 5 gyda'r hen A5025 yn Rhos-ty-mawr (R56).
- b) Yn ogystal, mae CSYM o'r farn bod cyfleoedd i ddarparu gwaith sgrinio ychwanegol trwy atgyfnerthu terfynau caeau sy'n bodoli eisoes wrth ben gorllewinol ffordd Llanfaethlu – Llanddeusant (T4) ac yn yr ardal rhwng PR18 a Chae'r Bryniau (R53) ac adran ogleddol Adran 5.
- c) Mae'n ymddangos ei bod yn hawdd cael mynediad i nifer fach yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ardal astudio Adran 5. Byddai cwmpas i wneud

gwelliannau ar y cyd â strategaethau mynediad a hamddena ehangach CSYM.

#### 1.5.9 Adran 7

- a) Ynghylch derbynyddion R76; R79; R80; R87 a PR23 ceir cwrpas i wneud gwaith lliniaru ychwanegol trwy blannu coed gwrychoedd mewn darn o'r gwrych a leolir ar hyd ffin y coridor dwyreiniol.
- b) Ceir cyfleoedd i wneud gwaith plannu oddi ar y safle mewn dau gae dros ben a gaiff eu creu rhwng yr hen A5025 a ffin ddwyreiniol coridor Adran 7 yr A5025 oddi ar y ffordd.
- c) Arsylwir bod y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ardal astudio Adran 7 yn y disgrifiadau gwaelodlin yn anhygyrch. Mae CSYM o'r farn y byddai modd gwella'r sefyllfa hon trwy wneud gwelliannau i drefniadau rheoli, cyfleusterau mynediad (camfeydd, gatiau ac ati) ac arwyddion, y byddent yn cael eu datblygu ar y cyd â strategaethau mynediad a hamddena ehangach CSYM fel y nodir yn ROWIP 2008-2018.

1.5.10 Bydd CSYM yn gofyn am ymrwymiad y bydd yr holl hadau a'r planhigion newydd yn tarddu o Ogledd Cymru/yr ardal leol a'u bod yn cael eu tyfu mewn meithrinfa leol er mwyn cynefino'r planhigion i'r amodau lleol cyn eu plannu ar y safle ac er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y ceir cynllun tirlun llwyddiannus. Mae angen gweithredu hyn o leiaf ddwy flynedd cyn y bydd angen y planhigion ar y safle. Yn ogystal, mae gofyn cael gwybodaeth bellach ynghylch y gwaith gofalus o wahanu pridd uchaf, isbridd a gorlwyth ar y safle yn ystod y gwaith torri a llenwi i ailfodelu'r topograffeg lleol, fel y defnyddir y pridd uchaf a'r isbridd priodol yn y gwaith plannu ac yn yr ardaloedd glaswelltir amwynder (pridd uchaf) a'r ardaloedd o laswelltir sy'n gyfoethog o rywogaethau (isbridd).

1.5.11 Dylid cyflwyno manylion pellach ynghylch dyluniad y gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i'r briffordd a dylent gael eu cymeradwyo gan CSYM cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle, a dylai'r rhain:

- a) Gynnwys y gwaith arfaethedig o ryddhau'r llethrau cloddwaith i'r de o'r draphont (yn Adran 3) ac yn Llanfaethlu (Adran 5) er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol ar gymeriad y tirlun a'r golygfeydd o eiddo preswyl cyfagos a'r AHNE.
- b) Cynnwys y llwybr troed/beicio cyd-ddefnyddio ar hyd yr A5025 o'r man lle y mae Llwybr 566 Sustrans yn croesi'r A5025 yn Nhregele (i'r gogledd o gyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer) trwy'r gyffordd ac ymlaen i'r man lle y mae llwybr amgen Llwybr 566 Sustrans yn croesi'r A5025 (i'r de o gyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer).
- c) Cynnwys unrhyw fesurau ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn cael mynediad i gaeau a wahanwyd wrth ddaliadau tir.

- d) Addasu trywydd y llwybr troed/beicio cyn-ddefnyddio yn Adran 5 fel ei fod yn croesi'r A5025 heb fod yn fwy na dwywaith ac o fewn parth 40 milltir yr awr.
- e) Darparu mwy o weithgarwch plannu coed er mwyn sgrinio'r ffordd newydd, yn enwedig gerllaw'r AHNE a lle y mae darnau bychain o gaeau wedi cael eu torri ac efallai nad ydynt yn addas at ddefnydd amaethyddol eraill.
- f) Darparu gwaith plannu ffurfiol ar hyd yr A5 wrth iddi agosáu at Y Fali, megis rhodfa goed ar hyd yr A5.
- g) Cynnwys adeiladu cloddiau, waliau cerrig neu gloddiau sydd â glaswellt arnynt ar hyd rhai ffiniau caeau ac ymyl y ffordd pan fo hynny'n briodol.

1.5.12 Yn ogystal, mae CSYM yn mynnu bod cynllun tirlun caled manwl yn cael ei ddarparu, a hysbysir gan yr arolwg tirlun caled, ac yn cael ei gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle, a bod hwnnw yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- a) Cynllun manwl sy'n dangos lleoliadau a dimensiynau yr holl elfennau tirlun caled (hy waliau cerrig, cloddiau, cloddiau sydd â glaswellt arnynt, ffensys, gatiau, camfeydd, wyneb llwybrau troed a llwybrau beicio, ac ati).
- b) Manylebion a lluniadau adeiladu ar gyfer yr holl elfennau tirlun caled.
- c) Rhaglen weithrediadau er mwyn adeiladu a chynnal a chadw y cynllun tirlun caled am 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith.

1.5.13 Mae gofyn cyflwyno cynllun tirlun meddal i CSYM ac mae gofyn i CSYM ei gymeradwyo cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle, a bod hwnnw yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- a) Yr holl waith newydd i blannu gwrychoedd, coed a llwyni brodorol a glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o rywogaethau a glaswelltiroedd eraill, ac ati, yn unol â Chynllun Tirlun arfaethedig yr A5025 (a ddangosir yng nghynlluniau Trefniant Cyffredinol Gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol i Briffordd yr A5025 (2.7 – 2.10: Adran 1 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00002 - 3), Adran 3 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00013 - 16), Adran 5 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00037 - 38), Adran 7 (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00049 - 51), 2.6.1: cyffordd ffordd fynediad yr Orsaf Bŵer (WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00063) a hefyd yn Atodiad G10-9 ES Cynllun Tirlun A5025 – Ffigurau 1 – 10 ac Atodiad A Atodiad 1-5 Cyfrol 3 DAS, fel y'i diwygiwyd).
- b) Rhestr fanwl o'r planhigion ar gyfer y gwaith plannu gwrychoedd, llwyni a choed, gan gynnwys rhywogaethau, meintiau, niferoedd a dwysedd/gofod plannu.
- c) Rhestr fanwl o'r gymysgedd o ran rhywogaethau ar gyfer yr ardaloedd arfaethedig o laswelltir sy'n gyfoethog o rywogaethau a glaswelltiroedd eraill, gan gynnwys cyfraddau hau hadau a rhywogaethau.
- d) Tarddiad a ffynonellau'r holl gymysgedd hadau a phlanhigion (rhaid iddynt darddu o Ogledd Cymru neu o'r ardal leol a rhaid tyfu'r planhigion mewn meithrinfa leol ar Ynys Môn am o leiaf flwyddyn cyn eu plannu er mwyn cynefino'r planhigion â'r amodau lleol).

- e) Cynlluniau plannu manwl sy'n nodi lleoliadau'r holl blanhigion i'w plannu a'r glaswelltiroedd i'w sefydlu.
- f) Manyleb ar gyfer y gweithrediadau pridd, hadau, plannu a chynnal a chadw.
- g) Rhaglen weithrediadau er mwyn sefydlu a chynnal y cynlluniau tirlun meddal am 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith.

1.5.14 Mae CSYM yn mynnu bod cynllun golau manwl sy'n lleihau nifer y colofnau golau gymaint ag y bo modd ac sy'n osgoi golau rhag gorlifo i adeiladau, cyrsiau dŵr a nodweddion ffin cyfagos (er mwyn lleihau gwawl yn ystod y nos ac effeithiau ar gymeriad y tirlun, rhinweddau arbennig yr AHNE ac uchelgais Ynys Môn o sicrhau statws Awyr Dywyll) yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ac yn cael ei gymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle.

1.5.15 Bydd llwyddiant gwaith plannu wrth sgrinio'r gwaith nad ydynt ar ffordd bresennol yr A5025 yn ddibynnol ar y ffordd y mae'n ymsefydlu a'r graddau y caiff ei gynnal. Mae CSYM yn dymuno gweld Gofyniad DCO i fonitro'r gwaith plannu am ei allu i leihau effeithiau gweledol gymaint ag y bo modd, gan nodi a darparu mesurau lliniaru ychwanegol os bydd CSYM yn barnu bod hynny'n briodol.

1.5.16 Os na fydd gwybodaeth bellach ynghylch ceisiadau sy'n ymwneud â dŵr wyneb yn dod i law, byddai CSYM yn dymuno gweld OH2 diwygiedig fel bod manylion yn cael eu cyflwyno i CSYM er mwyn iddo eu cymeradwyo cyn cychwyn ar waith datblygu (rhaeadr creigwely a dyluniadau i leihau risg llifogydd gymaint ag y bo modd). Yn yr un modd, mae CSYM yn dymuno cael rhagofalon ychwanegol sy'n berthnasol i ddiogelu cyflenwadau dŵr preifat, y dylent gynnwys ehangu cynigion monitro a phrotocol i nodi'r mesurau i'w cymryd os bydd y gwaith yn effeithio ar gyflenwad neu ansawdd dŵr.

## **1.6 Rhwymedigaethau S106**

1.6.1 Mae CSYM yn dymuno gweld ymrwymiad gan Horizon i ariannu trwy gyfrwng Rhwymedigaeth DCO gwaith plannu digolledu a lliniarol oddi ar y safle. Gallai hwn gael ei ddarparu gan Horizon yn uniongyrchol, gyda chytundeb tirfeddianwyr, neu trwy gyfrwng cronfa a gyfansoddir at y diben. Mae CSYM wedi nodi sawl lleoliad lle y byddai plannu yn briodol a byddai'n croesawu trafodaeth bellach gyda Horizon ynghylch y mater hwn ac ynghylch cyfleoedd i gael mesurau i wella ffiniau caeau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig cloddiau. Dylid darparu cyllid i gynnal gweithgarwch plannu oddi ar y safle am gyfnod o bum mlynedd.

1.6.2 Dylai'r Gronfa Amgylcheddol arfaethedig fod mewn grym am y Cyfnod Adeiladu ac am 10 mlynedd ar ôl hynny er mwyn ariannu gwelliannau i'r tirlun mewn rhan o'r AHNE (lleol i'r safle). Er enghraifft:

- a) Arolwg o wrychoedd, waliau cerrig a chloddiau er mwyn nodi graddau a chyflwr ffiniau caeau traddodiadol.
- b) Cynllun i adfer ffiniau caeau traddodiadol.
- c) Cynlluniau i adfer a gwella cynefinoedd pwysig, megis coetir, gwrychoedd, ymylon ffyrdd a chynefinoedd gwiwerod coch, a gwella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd.

- d) Cynllun er mwyn rheoli rhywogaethau goresgynnol anfrodorol.
- e) Cynlluniau rheoli draenio ar gyfer ffosydd a chysiau dŵr wyneb, er mwyn gwella ansawdd dŵr ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau, gwella tir amaethyddol a lleihau llifogydd.
- f) Cynlluniau gwella llwybrau troed ar gyfer hawliau tramwy sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys arwynebau, gatiau, camfeydd, arwyddion, yn enwedig yn adrannau 3 a 7.
- g) Darparu arwyddion dehongli a gwelliannau mynediad ar gyfer Maen Hir Capel Soar.
- h) Rhaglenni sgiliau gwledig gydag ysgolion a chymunedau lleol.